




Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Polisi Adnoddau Naturiol





Rhagair

Mae cyhoeddi'r Polisi Adnoddau Naturiol statudol cyntaf yn ail garreg filltir yn y broses o weithredu Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016, sy'n rhan o'r ddeddfwriaeth arloesol sydd gennym bellach yng Nghymru.

Mae'r Adroddiad ar Gyflwr Adnoddau Naturiol, a gyhoeddwyd y llynedd, yn tanlinellu'r ffaith bod adnoddau naturiol Cymru yn rhoi ystod eang o fanteision a thoreth o gyfleoedd inni. Mae'r rhain yn cynnwys y gallu i gynnal ein ffyniant a gwella ein hiechyd fel cenedl. I wneud hynny, mae angen inni wella'r modd rydym yn rheoli'n adnoddau naturiol – ein tir, ein môr a'n haer. Mae ein Polisi Adnoddau Naturiol (PAN) yn canolbwyntio ar esbonio sut y byddwn yn defnyddio'n polisiau i gyflawni hyn.

Mae'r achos busnes ar gyfer y gwaith yn glir; mae buddsoddi yn ein hadnoddau naturiol yn gost-effeithiol ac yn allweddol i'r nod o sicrhau bod Cymru gyfan yn ffynnu. Mae'r sectorau a'r diwydiannau sy'n defnyddio ein hadnoddau naturiol yn uniongyrchol - o amaethu, coedwigaeth a physgodfeydd i ynni a dŵr - wedi eu gwasgaru ledled Cymru. Yn ogystal â chyfleoedd i gael rhagor o werth o'r cadwyni cyflenwi presennol, maent hefyd mewn sefyllfa dda i fanteisio ar farchnadoedd sy'n tyfu, mewn meysydd fel ynni adnewyddadwy a charbon.

Bydd y PAN yn gymorth i gyflawni'r holl Nodau Llesiant ac yn sicrhau bod ein cymunedau a'n heconomi ar eu hennill, a chan wella'n hamgylchedd hefyd. Ochr yn ochr â chyfleoedd arwyddocaol mewn meysydd fel iechyd, twristiaeth, ynni a hamdden, fel Llywodraeth, rydym yn cydnabod y cyfrifoldeb sydd ynghlwm wrth ein hadnoddau naturiol. Mae'r ffaith bod ein hecosystemau a'n bioamrywiaeth yn parhau i edwino, a bod effeithiau'r newid yn yr amgylchedd eisoes i'w gweld, yn tanlinellu pam y mae'n hanfodol gweithredu i gyflawni'r blaenoriaethau a nodir yn y ddogfen bolisi hon.

Mae'r PAN yn esbonio sut y gall ein polisiau gyflawni amcanion economaidd ac amgylcheddol. Ond i wneud hyn, rhaid i ni roi'r gorau i ystyried materion amgylcheddol ar wahân. Rhaid inni hefyd sylweddoli faint rydym yn dibynnu ar y buddion y mae ein hadnoddau naturiol yn eu cynnig. Y sectorau hynny sy'n defnyddio ein hadnoddau naturiol sydd fwyaf dibynnol arnynt.

Yn dilyn y refferendwm ar adael yr Undeb Ewropeaidd, gweithiodd fy adran i gyda rhanddeiliaid ledled Cymru, dan oruchwyliaeth fy Mord Gron, i ystyried effaith Brexit fel rhan annatod o'r gwaith o ddatblygu'r PAN. Gan fod y fframwaith polisi, deddfwriaethol ac ariannol sy'n rheoleiddio ein hadnoddau naturiol wedi ei integreiddio'n llawn â fframwaith yr UE, mae'r her sy'n gysylltiedig â Brexit yn arbennig o ddifrifol yn y meysydd hyn. Nododd fy mord

gron y meysydd a ganlyn lle y gall adnoddau naturiol Cymru gryfhau ein prif sectorau:

- gwella'r gallu i brosesu a'r gwerth sy'n deillio o'n cadwyni cyflenwi;
- datblygu enw da am gynnyrch o safon, ac am y safonau sydd wrth wraidd y broses gynhyrchu;
- gweithio gyda natur i gryfhau ein hecosystemau ac i wella cynhyrchiant;
- datblygu economi fwy cylchol a chynyddu twf gwyrdd er mwyn gweithio'n fwy effeithlon, lleihau llygredd a chynyddu proffidioldeb;
- cefnogi datblygiad marchnadoedd sy'n gallu ysgogi buddsoddiadau, gan gynnwys dŵr, carbon ac ynni adnewyddadwy.

Yn y pen draw, i roi'n blaenoriaethau ar waith, rhaid i'r sectorau gwahanol weithio mewn partneriaeth. Dyna pam rydym wedi gweithio ar y cyd i ddatblygu'r blaenoriaethau yn y PAN hwn ac wedi rhoi lle canolog iddo yn y modd rydym yn ymdrin â Brexit. Edrychaf ymlaen at barhau i ymgysylltu wrth inni ddechrau rhoi'r blaenoriaethau hyn ar waith.



Lesley Griffiths AC, Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Amgylchedd a Materion Gwledig

Cyflwyniad

Adnoddau naturiol Cymru yw sylfaen ein llesiant, gan gynnwys ein ffyniant, ein hiechyd, ein diwylliant a'n hunaniaeth. Rydym yn dibynnu ar adnoddau naturiol o ansawdd uchel i ddarparu ein bwyd, dŵr ac aer glân. Mae adnoddau naturiol o ansawdd da yn hanfodol ar gyfer bywoliaeth; rydym yn dibynnu arnynt am ddeunyddiau crai, dŵr a ffynonellau ynni ar gyfer ein diwydiannau allweddol.

Yn y Polisi Adnoddau Naturiol (PAN) hwn canolbwyntir ar wella ein ffordd o reoli ein hadnoddau naturiol. Mae hyn yn rhan allweddol o'r fframwaith cyflenwi ar gyfer rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy, a sefydlwyd gan Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru). Mae hefyd yn hanfodol er mwyn sicrhau y bydd cenedlaethau heddiw ac yfory yn gallu mwynhau'r buddion sy'n deillio ohonynt. Gan hynny, mae'r hefyd yn allweddol o'r broses o gyflawni'r Nodau Llesiant a bennir yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, a'n cyfraniad rhyngwladol ni i gyflawni Nodau Byd-eang y Cenhedloedd Unedig.

Mae'r adrannau a ganlyn yn nodi'r egwyddorion statudol sydd wrth wraidd ein gwaith ac yn esbonio sut y mae'r PAN yn helpu i wireddu 'Ffyniant i Bawb – y strategaeth genedlaethol' a hefyd yr ymrwymadau rhyngwladol sydd gan Gymru. Yn yr adrannau dilynol, ceir disgrifiad o'r cyfleoedd a'r heriau sy'n wynebu'n hadnoddau naturiol, yn unol â'r gofynion yn y Ddeddf. Ar sail y cyfleoedd a'r heriau hyn, mae'r PAN wedyn yn nodi tair blaenoriaeth genedlaethol y byddwn yn eu datblygu i roi sylw iddynt. Yn olaf, byddwn yn dangos sut y byddwn yn rhoi'r blaenoriaethau ar waith ac yn monitro a gwerthuso cynnydd.

Nid rhywbeth sy'n ymwneud â swyddogaeth Llywodraeth Cymru neu'r sector cyhoeddus yn unig yw'r Polisi Adnoddau Naturiol. Mae'r PAN yn arbennig o bwysig i ffermwyr, coedwigwyr, pysgotwyr, cwmnïau cyfleustod, cymunedau, gweithwyr proffesiynol iechyd, y trydydd sector a sefydliadau academiaidd, cynllunwyr a datblygwyr. Ond rydym hefyd yn cydnabod bod ein cymdeithas yn ei chyfanrwydd yn elwa ar ein hadnoddau naturiol. Fel cam cyntaf, rydym wedi defnyddio ymatebion a gafwyd i'r ymgynghoriad ynghylch y PAC a'r Adroddiad ar Gyflwr Adnoddau Naturiol (AGAN) a gyhoeddodd Cyfoeth Naturiol Cymru. Rydym hefyd wedi defnyddio casgliadau'r broses o ymgysylltu ynghylch effeithiau posibl penderfyniad y DU i adael yr Undeb Ewropeaidd.

Buddion sy'n deillio o adnoddau naturiol Cymru

Mae'r buddion a'r gwasanaethau y mae ein hecosystemau'n eu cynnig i gymdeithas yn cynnwys:

- **Gwasanaethau cyflenwi:** er enghraifft cnydau, da byw, pysgod a choed; a ffrydiau ynni naturiol
- **Gwasanaethau rheoleiddio:** megis puro dŵr ac aer, rheoli sŵn, dal a storio carbon, rheoli perygl llifogydd, cymhathu gwastraff a pheillio
- **Gwasanaethau diwylliannol:** megis gweithgareddau hamdden a'r buddion iechyd a llesiant cysylltiedig; ein hamgylchedd hanesyddol a gwerthfawrogiad o harddwch ein lleoedd, tirweddau a natur, a
- **Systemau a gwasanaethau ategol:** megis ffurfiant pridd a chylchu maethynnau, sy'n angenrheidiol er mwyn darparu pob gwasanaeth ecosystem arall. Bioamrywiaeth yw'r sylfaen sy'n cynnal y systemau a'r gwasanaethau hyn.

Yr Egwyddorion Allweddol sydd wrth wraidd ein gwaith

Mae Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 yn cynnwys gofyniad i '*reoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy*' ynghyd â dulliau newydd o weithio i wneud hyn.

O dan y Ddeddf, mae'n ofynnol inni egluro'r *heriau* sy'n wynebu'n hadnoddau naturiol a'n hecosystemau, a'r *cyfleoedd* y gallant eu cynnig. Mae hyn yn golygu edrych ar y modd rydym yn rheoli ein hadnoddau naturiol ar hyn o bryd, a sut y gallwn leihau'r pwysau arnynt. Trwy gymryd camau i wella effeithlonrwydd adnoddau neu leihau llygredd, er enghraifft, y nod yw *cryfhau* ein hecosystemau. Y rhain yw'r systemau naturiol cymhleth y dibynnwn arnynt. Mae ecosystemau iach a chryf yn fwy tebygol o fedru gwrthsefyll y pwysau a'r gofynion cynyddol rydym yn eu hwynebu fel cymdeithas. Mae hyn yn hanfodol os ydym am barhau i ddibynnu ar ein hecosystemau am yr ystod eang o fuddion y maent yn eu cynnig.

Rhoddir manylion yn Atodiad A am y nodweddion hynny sy'n creu ecosystemau cryf, er mai mater o synnwyr cyffredin yn y pen draw yw rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy. Mae'n helpu pob un ohonom – llywodraeth, busnesau, cymunedau ac unigolion – trwy greu buddion lluosog i'n heconomi, ein cymdeithas a'n hamgylchedd. Mae'r dull hwn yn disodli'r arfer hanesyddol o ganolbwyntio yn adweithiol ar faterion broblemau. Yn hytrach, mae'r PAN hwn yn cydnabod bod problemau systemig yn galw am ymateb systemig a, drwyddo, rydym yn parhau i weithredu ein fframwaith cyfreithiol a chyllidol cydgysylltiedig modern. Mae'n cydnabod hefyd fod llwyddiant yn galw am

gydweithio, ac felly mae'r gwaith o ddatblygu'r polisi hwn wedi'i seilio ar ddull cydweithredol o weithredu – ar draws sectorau ac ar draws llywodraeth – ac ar broses ymgysylltu eang, gan gynnwys ein Bord Gron ar Brexit.

Mae'n hanfodol hefyd seilio'r Polisi Adnoddau Naturiol ar ddealltwriaeth dda o'n sefyllfa bresennol a'r angen i gael llinell sylfaen glir. Dyna pam mae'n ofynnol, o dan y Ddeddf, i Gyfoeth Naturiol Cymru gyhoeddi '*Adroddiad ar Gyflwr Adnoddau Naturiol*'¹. Yr adroddiad arloesol a gyhoeddwyd yn 2016 oedd sail dystiolaeth genedlaethol gyntaf Cymru a chynigiodd hefyd asesiad o gyflwr ein hadnoddau a'r prif dueddiadau sy'n eu hwynebu. Ochr yn ochr â'r dystiolaeth a ddeilliodd o'n hymgyngoriad a thystiolaeth ynghylch arferion da rhyngwladol, yr asesiad hwn sydd wrth wraidd y polisi hwn a bydd y broses o'i gweithredu'n newid wrth iddo gael ei addasu'n barhaus.

Yn y modd hwn, rydym wedi ceisio enghreifftio'n llawn yr egwyddorion yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol mewn perthynas â'r pum 'Ffordd o Weithio' – *atal, cyfuno, cynnwys, cydweithio a gweithredu ar gyfer y tymor hir* – yn ogystal â chanolbwyntio'n gyson ar y cyfraniad y gall ein hadnoddau naturiol ei wneud o ran cyflawni'n holl amcanion llesiant a'r Nodau Llesiant.

Helpu i Wireddu '*Ffyniant i Bawb – y strategaeth genedlaethol*'

Ar ôl i Gynulliad Cenedlaethol Cymru gael ei ethol, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ei rhaglen lywodraethu; Symud Cymru Ymlaen 2016-2021. Mae'r rhaglen honno'n amlinellu pedwar maes lle mae'r Llywodraeth yn credu y gall gael yr effaith fwyaf: ffyniannus a diogel, iach ac egniol, uchelgais a dysgu, unedig a chysylltiedig. Mae hefyd yn nodi'r prif ymrwymadau y byddwn yn eu gwireddu rhwng 'nawr a 2021. Roedd Symud Cymru Ymlaen yn tynnu sylw at y ffaith bod yr heriau sy'n ein hwynebu yn rhai cymhleth ac at bwysigrwydd gweithio ar draws ffiniau traddodiadol i wireddu'n blaenoriaethau. Byddwn yn mynd ati yn y man i gyhoeddi strategaeth genedlaethol, 'Ffyniant i Bawb', a fydd yn esbonio sut y byddwn yn cysylltu'r rhaglenni a'r gwasanaethau gwahanol y byddwn yn eu darparu er mwyn cael yr effaith fwyaf bosibl yn y pedwar maes hyn. Bydd gan y Polisi Adnoddau Naturiol ran i'w chwarae wrth inni fynd ati i weithredu ar draws y pedwar maes sydd yn y strategaeth.

Mae'r blaenoriaethau yn y Polisi Adnoddau Naturiol yn ein helpu i wireddu'r strategaeth genedlaethol. Mae cysylltiad clir rhwng ein hadnoddau naturiol a'u rheoli mewn ffordd effeithiol, a'n nod fel llywodraeth o sicrhau ffyniant i bawb.

Ymrwymadau Cymru o dan gytundebau rhyngwladol

Mae'r cysylltiadau rhwng bioamrywiaeth, y newid yn yr hinsawdd, a datblygu cynaliadwy wedi cael eu cydnabod yng Nghonfensiwn Fframwaith y Cenhedloedd Unedig ar Newid yn yr Hinsawdd (UNFCCC), yn y Confensiwn ar Amrywiaeth Fiolegol (CBD) ac yn y 17 o Nodau Datblygu Cynaliadwy sydd gan y Cenhedloedd Unedig. Mae nodau'r tri chytundeb rhyngwladol hyn yn ategu'i

¹ www.naturalresources.wales/sonarr?lang=cy

gilydd. Mae bioamrywiaeth ac ecosystemau sy'n gweithio'n dda yn cynnig atebion naturiol sy'n meithrin cydnerthedd. Mae'r atebion hynny, yn eu tro, yn helpu cymdeithas i greu swyddi, i gynnal bywoliaeth a llesiant pobl, i addasu er mwyn ymdopi ag effeithiau andwyol y newid yn yr hinsawdd ac i gyfrannu at ddatblygu cynaliadwy. A hithau'n llywodraeth is-genedlaethol, mae gan Lywodraeth Cymru ran hollbwysig i'w chwarae wrth fynd i'r afael â'r heriau byd-eang sy'n wynebu bioamrywiaeth ac wrth fynd i'r afael â'r newid yn yr hinsawdd. Mae ganddi rôl hollbwysig i'w chwarae hefyd o ran gwireddu ymrwymadau o dan gytundebau rhwngwladol ar liniaru effeithiau'r newid yn yr hinsawdd ac addasu er mwyn ymdopi nhw. Mae ganddi hefyd gyfraniad pwysig i'w wneud o ran mynd i'r afael â'r ffaith ein bod yn colli bioamrywiaeth ac o ran helpu i gyflawni'r nodau datblygu cynaliadwy. Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn amlinellu cyfres o nodau datblygu cynaliadwy ar gyfer Cymru. Mae'r nodau hynny'n ymdrin â'r angen i fynd i'r afael ar fyrder â'r hyn sy'n achosi'r newid yn yr hinsawdd, a hefyd yr angen i sicrhau bod Cymru yn gyfrifol ar lefel byd-eang am yr hyn a wna. Mae Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 yn sicrhau bod adnoddau naturiol yn cael eu rheoli mewn ffordd gynaliadwy er mwyn sicrhau eu bod yn gallu cynnig buddion cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol, gan gynnwys atebion sy'n seiliedig ar natur i liniaru effeithiau'r newid yn yr hinsawdd ac addasu er mwyn ymdopi â nhw.

Y cyfleoedd y mae adnoddau naturiol Cymru yn eu cynnig

Mae'r adran hon yn nodi'r pedwar prif gyfle'n ymwneud â'n hadnoddau naturiol, sef:

- Hybu cymunedau llwyddiannus, cynaliadwy;
- Hyrwyddo twf gwyrdd a mentrau arloesol i greu swyddi cynaliadwy;
- Hybu economi sy'n defnyddio'n adnoddau'n fwy effeithiol;
- Cynnal cymunedau iach, egniol a chysylltiedig.

Cynorthwyo cymunedau cynaliadwy llwyddiannus

Nid yn unig y mae adnoddau naturiol Cymru yn asgwrn cefn i'n heconomi wledig, ond maent hefyd yn darparu adnoddau a buddion hanfodol i'n heconomi a'n cymdeithas gyfan.

Adnoddau naturiol yw sylfaen ein diwydiannau cynhyrchu crai – amaethyddiaeth, coedwigaeth, pysgodfeydd a'r diwydiant dŵr. Mae ein tirweddau hardd, ein natur a'n bywyd gwylt hefyd yn cynnal sector twristiaeth a hamdden ffyniannus, yn ogystal ag yn rhan hanfodol o'n diwylliant a'n hunaniaeth. Ansawdd a hygyrchedd ein hamgylchedd naturiol yw'r prif reswm y mae pobl yn dewis byw yng Nghymru a threulio'u gwyliau yma.

Mae sectorau fel amaethyddiaeth, coedwigaeth, ynni adnewyddadwy, dŵr a thwristiaeth yn bwysig oherwydd y cyfle a gynigiant i ddatblygu swyddi o ansawdd uchel ledled Cymru, a sicrhau cynaliadwyedd economaidd hirdymor ein cymunedau ym mhob cwr o Gymru. Maent hefyd yn darparu adnoddau sydd o bwys sylfaenol i ffyniant a diogelwch diwydiannau ehangach ac i ffyniant a diogelwch ein trefi a'n dinasoedd.

Trwy reoli ein hadnoddau yn gynaliadwy, a thrwy sicrhau bod yr hyn a ddysgir ym maes addysg yn adlewyrchu hynny, bydd modd inni eu cryfhau yn yr hirdymor, manteisio ar gyfleoedd a ddaw i'r amlwg a lleihau'r peryglon a'r risgiau cyfredol, gan gynnwys y rhai a achosir gan ymadawiad y DU o'r Undeb Ewropeaidd.

Y buddion allweddol sydd ynghlwm wrth ein hadnoddau naturiol

Mae'r gadwyn fwyd yng Nghymru yn cyflogi 223,100 (yn 2014) sef 18.4% o holl gyflogaeth Cymru (o'i gymharu ag 13.5% yn y DU).²

². Dadansoddiad Sector Blaenoriaethol ; ffigurau data cyflogaeth o Arolwg y Gofrestr Busnesau a Chyflogaeth ONS. Ffigurau cyflogaeth amaethyddol Arolwg y Gofrestr Busnesau a Chyflogaeth a Defra.

Yn 2014, amcangyfrifwyd bod gwerth blynyddol y gwasanaethau hamdden a ddarperir gan natur yn y DU yn £6.5 biliwn³. Roedd 2015 yn rhagori ar y record a osodwyd yn 2014 am y nifer o Brydain Fawr a ymwelodd â Chymru, a gynyddodd i 10.45 miliwn ynghyd â'r gwariant cysylltiedig uchaf erioed, sef £1,975 miliwn.⁴ Cynyddodd ymweliadau o dramor i 970,000, a gwariodd yr ymwelwyr hyn fwy nag erioed o'r blaen, sef £410 miliwn⁵. Yn ogystal â hyn, yn 2015 cynyddodd cyflogaeth uniongyrchol yn y sector twristiaeth yng Nghymru i 132,400, sef 10% o weithlu Cymru⁶.

Mae'r amcangyfrif o werth blynyddol y gwasanaeth ecosystem sy'n gysylltiedig â dal a storio carbon yn y DU wedi cynyddu'n gyson rhwng 2007 a 2014, sef cynnydd o tuag 18% o £1.41 biliwn £1.70 biliwn.⁷

Hyrwyddo twf gwyrdd ac arloesi i greu swyddi cynaliadwy

Mae'r cyfleoedd i hybu'r twf gwyrdd yng Nghymru wedi peri i'r economi werdd ehangu'n sylweddol.

Mae adnoddau naturiol Cymru yn darparu digonedd o adnoddau ynni adnewyddadwy megis gwynt, ynni dŵr, pŵer yr haul a biomas, sydd i gyd wedi cyfrannu ar dwf sylweddol yn y sector dros y 10 mlynedd diwethaf. Maent yn cynnig potensial enfawr am dwf pellach, ar y tir ac yn y môr.

Mae cyfleoedd sylweddol i arloesi ar draws y cadwyni cyflenwi, yn enwedig mewn perthynas â'n diwydiannau cynhyrchu crai. Gellir datblygu marchnadoedd trwy gynhyrchion arloesol newydd a fydd yn ychwanegu gwerth ac yn estyn y cadwyni cyflenwi trwy ddisodli cynhyrchion llai cynaliadwy. Mae cyfleoedd hefyd drwy arallgyfeirio i farchnadoedd a ddaw i'r amlwg mewn meysydd fel carbon, dŵr a bioamrywiaeth. Ein safonau amgylcheddol, gan gynnwys safonau iechyd a lles anifeiliaid a safonau i ddiogelu iechyd dynol, sy'n sail i'n henw da am gynnyrch o ansawdd uchel. Gall hyn ein cynorthwyo i fod yn gystadleuol mewn marchnadoedd cartref a rhyngwladol.

Twf yr economi werdd

Yng Nghymru, mae 'twf gwyrdd' yn ffordd o feithrin twf a datblygiad economaidd sy'n gymdeithasol deg ac sy'n sicrhau y defnyddir y cyfoeth o adnoddau naturiol yn gynaliadwy fel y gallant barhau i fod o fudd inni ac i'n cynnal yn y dyfodol. Mae adnoddau naturiol Cymru, felly, yn cael lle canolog

³ <https://www.ons.gov.uk/>

⁴ Great Britain Tourism Survey

⁵ International Passenger Survey

⁶ Ystadegau Sectorau â Blaenoriaeth (gwefan Llywodraeth Cymru <http://gov.wales/statistics-and-research/priority-sector-statistics/?lang=en>) 'Dadansoddiad Llywodraeth Cymru o'r Arolwg Poblogaeth Blynyddol, ONS'

⁷ <https://www.ons.gov.uk/>

yn nodau Llywodraeth Cymru o ysgogi buddsoddi ac arloesi, cefnogi twf cyson ac ysgogi cyfleoedd economaidd newydd.

Cyfrannodd y sector nwyddau a gwasanaethau amgylcheddol gwerth £29.0 biliwn i economi'r DU yn nhermau gwerth ychwanegol yn 2014; £61.1 biliwn ar sail allbwn cynhyrchu a gynyddodd 18.7% rhwng 2010 a 2014; a 373,500 o swyddi cyfwerth amser llawn i'r cyfanswm cyflogaeth yn 2014, sef cynnydd o 10.9% rhwng 2010 a 2014.⁸

Gwelwyd twf sylweddol mewn rhai sectorau o'r economi werdd, megis ynni adnewyddadwy; er enghraifft, cynyddodd gwerth ynni gwynt i ddiwydiant cynhyrchu pŵer y DU 233% rhwng 2007 a 2014; o tua £0.55 biliwn yn 2010 i £1.8 biliwn yn 2014. Yn y cyfamser mae'r buddsoddiadau byd-eang mewn ynni adnewyddadwy wedi arwain at ddyblu galluoedd cynhyrchu trydan adnewyddadwy'r byd rhwng 2005 a 2015. Yn yr UE, ynni adnewyddadwy sy'n cyfrif am y rhan helaethaf o lawer o'r galluoedd cynhyrchu trydan newydd (77% yn 2015).⁹

Yma yng Nghymru, mae Twf Gwyrdd Cymru yn cynorthwyo'r sector cyhoeddus Cymreig i gyflawni prosiectau effeithlonrwydd ynni ac ynni adnewyddadwy trwy ddarparu cymorth arbenigol eang a chyllid cyfalaf. Yn ystod y ddwy flynedd o Fawrth 2015 ymlaen, rydym wedi buddsoddi £21.3 miliwn a fydd yn arbed £42.8 miliwn i'r sector cyhoeddus, yn symbylu'r sector carbon isel ac yn cadw rhagor o'r gwerth economaidd o fewn Cymru. Bydd y prosiectau a ariannwyd hefyd yn arbed 236,000 tonnall fetrig o CO₂. Mae'r cynllun Arbed2 wedi gwella effeithlonrwydd ynni bron 3000 o gartrefi, wedi creu mwy na 470 o swyddi newydd trwy gyfrwng cynlluniau gan gwmnïau a leolir yng Nghymru, gan ddangos elw i'r economi leol o hyd at £2 am bob £1 a fuddsoddir.

Cefnogi economi sy'n defnyddio adnoddau yn fwy effeithlon

Pan reolir hwy'n ddoeth, mae adnoddau naturiol Cymru yn darparu ystod o gyfleoedd i gefnogi economi carbon isel a fydd yn defnyddio'r adnoddau yn fwy effeithlon. Mae'n heconomi'n dibynnu ar fewnbynau o ddeunyddiau crai, yn enwedig ar gyfer gweithgynhyrchu cydrannau a chynnyrch terfynol. Bygythir cydnerthedd gweithgynhyrchu yng Nghymru gan gostau cynyddol y deunyddiau crai, ansefydlogrwydd prisiau ac ansicrwydd y cyflenwadau o ddeunyddiau allweddol. Yn ogystal â hyn, mae llawer o'n diwydiannau yn canolbwyntio ar ddarparu deunyddiau crai a gaiff eu hallforio'n syth neu sy'n cael eu prosesu dim ond rhyw ychydig, yng Nghymru.

Mae symud i gyfeiriad economi fwy cylchol yn gyfle strategol allweddol i Gymru. Gyda chymorth datblygiadau mewn addysg a sgiliau, mae'n gyfle i sicrhau swyddi newydd ac arloesi, arbed costau i fusnesau a chryfhau ein cadwyni cyflenwi; a byddai hefyd yn lliniaru'r risgiau sy'n gysylltiedig â Brexit.

⁸<https://www.ons.gov.uk/economy/environmentalaccounts/bulletins/ukenvironmentalaccounts/2010to2014>

⁹<http://www.eea.europa.eu/highlights/renewables-assuming-greater-role-in>

Trwy ddefnyddio ein hadnoddau yn fwy effeithlon gellir hefyd leihau'r pwysau ar ein hadnoddau naturiol a achosir gan faterion megis llygredd a gwaredu gwastraff. Felly, gallai cyfuno polisi economaidd ac amgylcheddol trwy hyrwyddo effeithlonrwydd adnoddau ac arloesi helpu Cymru i fanteisio i'r eithaf ar y buddion a geir o economi gylchol, ond gall hefyd ein helpu i fod yn fwy cystadleuol yn y dyfodol.

Datblygu economi sy'n defnyddio adnoddau'n effeithlon

Mae economi gylchol yn parhau i ddefnyddio adnoddau cyhyd ag y bo modd, yn echdynnu'r gwerth mwyaf ohonynt wrth eu defnyddio ac yna, ar ddiwedd pob oes ddefnyddiol, yn adfer ac adfywio'r cynnyrch a'r deunyddiau.

Mae cyflogaeth mewn gweithgareddau rheoli gwastraff o fewn y DU wedi cynyddu'n gyson rhwng 2012 a 2014, ac wedi cyfrif am y nifer mwyaf o gyflogeion cyfwerth ag amser llawn ym mhob blwyddyn, gyda 127,300; y gyfran fwyaf o allbwn yn sector nwyddau a gwasanaethau gwyrdd y DU, sef £12.7 biliwn (20.9%), gyda gwerth ychwanegol gros o £5.2 biliwn (18.0%) yn 2014.¹⁰

Trwy symud i gyfeiriad economi gylchol, mae'r arbedion posibl i economi Cymru yn £2 biliwn¹¹ gyda'r posibilrwydd o greu hyd at 30,000 o swyddi¹².

Cynnal cymunedau iach, gweithgar a chysylltiedig

Mae adnoddau naturiol yn hanfodol ar gyfer bywyd dynol, ac mae eu cyflwr yn effeithio ar ein llesiant corfforol a meddyliol. Gall adnoddau naturiol ac ecosystemau o ansawdd uchel chwarae rhan allweddol mewn gwella canlyniadau iechyd. Gallant helpu i fynd i'r afael ag amrywiaeth o faterion iechyd cyhoeddus, o lygredd aer a sŵn i gyflyrau sy'n gysylltiedig ag anweithgarwch megis diabetes a gordewdra. Mae hamddena yn yr awyr agored yn creu buddion iechyd sylweddol i boblogaeth Cymru yn ogystal â buddion sylweddol i'r economi trwy ychwanegu at gyfleoedd twristiaeth.

Mae'r manau gwyrdd yng Nghymru yn darparu ffocws ar gyfer gweithredu cymunedol a gwirfoddoli, yn helpu i gynyddu'r cyfalaf cymdeithasol, gwella cydlyniaid cymunedau a lleihau ymddygiad gwrthgymdeithasol. Yn ogystal, gallant fod yn ysgogiad allweddol i fuddsoddi ac adfywio, a darparu gwasanaethau hollbwysig i drefi a dinasoedd, a ystyrir yn hanfodol ar gyfer eu datblygiad.

¹⁰<https://www.ons.gov.uk/economy/environmentalaccounts/bulletins/ukenvironmentalaccounts/2010to2014>

¹¹ 2013 Adroddiad WRAP/ Sefydliad Ellen MacArthur 'Wales and the Circular Economy: Favourable system conditions and economic opportunities'

¹² 2015 Mae adroddiad WRAP/Green Alliance 'Employment and the circular economy: Job creation in a more resource efficient Britain' yn nodi'r potensial ar gyfer greu 30,000 o swyddi yng Nghymru trwy symud i gyfeiriad economi gylchol.

Yn aml, mae llai o fannau gwyrdd o ansawdd uchel ar gael mewn ardaloedd incwm isel. Gan fod llawer llai o anghydraddoldebau iechyd mewn ardaloedd gwyrddach, mae hyn yn dangos bod cysylltiad agos rhwng prinder mannau gwyrdd ac iechyd gwael a, drwy wella'r ddarpariaeth hon, gellid gwella iechyd pobl a'u hannog i ymwneud â'r asedau naturiol cyfagos.

Ein hadnoddau naturiol, iechyd ac anghydraddoldeb

Un gwasanaeth ecosystem allweddol yw hidlo aer i dynnu llygryddion ymaith o'r atmosffer. Yng Nghymru bob blwyddyn, priodolir tua 1,320 o farwolaethau a 13,549 o golledion blynyddoedd oes i effaith deunydd gronynnol 2.5 (PM2.5), a 1,100 o farwolaethau a 13,200 o golledion blynyddoedd oes i effeithiau NO₂.¹³

Yn ôl Iechyd Cyhoeddus Cymru,¹⁴ gwella'r mynediad i fannau gwyrdd a darparu cyfleusterau i ddwyn pobl ynghyd yw'r ffordd orau o atal anhwylderau meddwl a gwella llesiant meddyliol. Mae Sefydliad Iechyd y Byd yn awgrymu bod dulliau iechyd cyhoeddus sy'n cynnig buddion iechyd, cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol, megis mannau gwyrdd diogel a thrafnidiaeth egniol, yn gost effeithiol ac yn darparu enillion ar fuddsoddiadau.¹⁵ Awgrymir hefyd gan astudiaethau fod y bobl sy'n byw'n agos at fan gwyrdd yn fwy tebygol o fod â lefel uchel o weithgarwch corfforol, ac o ddefnyddio'r man gwyrdd yn amlach.¹⁶

Yn ôl tystiolaeth o rannau eraill o'r DU, nid yn unig y mae ardaloedd incwm isel yn dioddef problemau o ran tai, cyrhaeddiad addysgol a diet gwael, ond hefyd o ddiffyg mynediad i fannau gwyrdd o ansawdd da, a bod hynny'n cyfrannu at gyflwr eu hiechyd. Amcangyfrifir bod cost yr anghydraddoldebau iechyd i economi Cymru mewn colledion cynhyrchiant yn £1.8 - £1.9 biliwn y flwyddyn a'r costau lles yn £1.1 - £1.8 y flwyddyn.¹⁷

Yr heriau allweddol

Os ydym am i'r camau a gymerwn fod yn effeithiol, mae'n bwysig bod yn onest am yr heriau sy'n ein hwynebu. Ar ôl adolygu'r dystiolaeth, ac ymgysylltu'n eang, rydym wedi penderfynu mai dyma'r tair prif her:

- Gwella cydnherthedd yr ecosystem
- Y newid yn yr hinsawdd a dirywiaeth mewn amrywiaeth biolegol

¹³http://www.wales.nhs.uk/sitesplus/documents/888/Making%20A%20Difference_Evidence%28E_web%29.pdf

¹⁴http://www.wales.nhs.uk/sitesplus/documents/888/PHW_Making_a_Differnce_Infographics_E%28web%29.pdf

¹⁵http://www.wales.nhs.uk/sitesplus/documents/888/Making%20A%20Difference_Evidence%28E_web%29.pdf

¹⁶<http://researchbriefings.files.parliament.uk/documents/POST-PN-0538/POST-PN-0538.pdf>

¹⁷http://www.wales.nhs.uk/sitesplus/documents/888/Making%20A%20Difference_Evidence%28E_web%29.pdf a <http://researchbriefings.files.parliament.uk/documents/POST-PN-0538/POST-PN-0538.pdf>

- Penderfyniad y DU i adael yr UE

Gwella Cydnerthedd Ecosystemau

Mae'r buddion a'r cyfleoedd a gynigir gan ein hadnoddau naturiol yn dibynnu ar iechyd a chydnerthedd yr ecosystemau. Fodd bynnag, mae'r Adroddiad o Gyflwr Adnoddau Naturiol yn dangos nad oes yr un o ecosystemau Cymru yn amlygu holl nodweddion cydnerthedd. Yn gyffredinol, mae'r amrywiaeth yn edwino, ac mae hyn i'w weld yn y modd y mae cynefinoedd a rhywogaethau'n diflannu. Mae maint rhai cynefinoedd hefyd wedi crebachu'n sylweddol. Gan hynny, os na chymerir unrhyw gamau, mae'r buddion a gynigir gan ein hadnoddau naturiol dan fygythiad.

Er mwyn adeiladu cydnerthedd o fewn ein hecosystemau, mae angen:

- Datblygu rhwydweithiau ecolegol cydnerth yn rhagweithiol, i gynnal a gwella cydnerthedd ehangach ecosystemau Cymru. Mae'r dystiolaeth yn dangos bod amrywiaeth yn edwino a bod newid y defnydd o'r môr a'r tir yn arwain at ddarnio a cholli cynefinoedd a rhywogaethau, a selio'r pridd. Trwy adeiladu ar safleoedd gwarchoddedig Cymru, ein nod yw gwella cydnerthedd a gwrthdroi'r dirywiad hwn mewn bioamrywiaeth yng Nghymru. Trwy wrthdroi'r duedd hon, a rheoli'r ardaloedd presennol yn well a chreu ardaloedd newydd bydd modd hefyd sicrhau buddion ehangach pwysig i'r gymdeithas.
- Gwella cyflwr ein hecosystemau. Mae'r dystiolaeth yn dangos bod llygredd aer, sŵn, pridd a dŵr yn effeithio ar gyflwr ein hecosystemau, yn lleihau gallu ein priddoedd i gynhyrchu, yn effeithio ar ein cynefinoedd a'n bywyd gwylt, ac yn cyfrannu at afiechyd pobl. Mae angen gostwng lefelau'r llygredd yn ein haer a gwella ei ansawdd. Mae angen gwella ansawdd ein dŵr hefyd a sicrhau bod digon ohono. Rhaid inni gymryd camau i ddiogelu peillwyr. Rhaid inni hefyd reoli ein priddoedd yn well gan ddiogelu ein tir amaethyddol gorau a mwyaf amlbwrpas er mwyn gwella ansawdd a gallu cynhyrchol y pridd a'i gydnerthedd rhag diraddio. Mae angen diogelu cyflwr ecolegol a statws amgylcheddol ein hecosystemau dŵr croyw a morol, a sicrhau poblogaethau o rywogaethau pysgod iach, gan hybu pysgodfeydd cynhyrchol a rheoli problemau'n ymwneud â'r rhyngwyneb rhwng y tir a'r môr, yn enwedig sbwriel môr. Yn ogystal â hyn, mae angen gwella'r modd y caiff coedlannau eu rheoli ac ystyried y defnydd ehangach o goed.
- Lleihau, a gwella'r modd y rheolir y pwysau a osodir ar yr ecosystemau a'r adnoddau naturiol, a'r hyn a ofynnir ganddynt. Mae'r dystiolaeth yn dangos bod defnydd aneffeithlon o'r adnoddau naturiol yn effeithio ar argaeledd adnoddau a deunyddiau crai yn awr ac yn y dyfodol. Yn ychwanegol, mae'r defnydd o'r adnoddau hyn yn gosod pwysau sylweddol ar ein hadnoddau naturiol a'n hecosystemau, ar ffurf llygredd

difrodol a newid yn yr hinsawdd. I leihau'r pwysau hyn, mae angen inni gynyddu'r arfer o atal gwastraff a hyrwyddo aildefnyddio, ailgylchu ac adfer. Mae angen inni hefyd leihau ein defnydd o ffynonellau ynni anadnewyddadwy trwy wella effeithlonrwydd ynni a chynhyrchu a defnyddio rhagor o ynni adnewyddadwy ac addasu ar gyfer y newid yn yr hinsawdd a lliniaru ei effeithiau. Mae angen sicrhau yr echdynnir mwynau yn gynaliadwy, cynyddu i'r eithaf y defnydd o agregau a ailgylchwyd a hybu'r defnydd effeithlon o agregau, gan osgoi effeithiau andwyol ar asedau naturiol eraill Cymru. Mae angen inni hefyd barhau i wella bioddiogelwch, gan gynnwys agweddau ar iechyd anifeiliaid, iechyd planhigion a rheoli rhywogaethau ymledol anffrodol.

Newid yn yr hinsawdd a dirywiad yr amrywiaeth fiolegol

Rhaid i'r PAN nodi'r hyn y dylid ei wneud i fynd i'r afael â'r newid yn yr hinsawdd a'r dirywiad mewn bioamrywiaeth, fel y nodir yn Neddf yr Amgylchedd (Cymru).

Mae'r newid yn yr hinsawdd yn creu newidiadau eisoes. Newidiadau mewn rhywogaethau a chynefinoedd; dosbarthiad plâu, pathogenau a rhywogaethau ymledol; amaethyddiaeth a chynhyrchiant coedwigol, cyflwr y pridd oherwydd cynnydd tymhorol mewn sychder a lleithder; ac oherwydd mewnlifiad dŵr hallt, prinder dŵr, llifogydd a newidiadau yn nhymheredd dŵr. Mae mewnfudiad rhywogaethau, plâu ac afiechydon ymledol yn effeithio'n andwyol ar rywogaethau a chynefinoedd brodorol a'u gallu cynhyrchio.

Mae ecosystemau iach a chydnerth yn hanfodol i'r broses o fynd i'r afael â'r bygythiadau i'r hinsawdd. Mae elfennau o'r ecosystem, fel coed a phridd, yn sylfaenol i'r broses o ddal a storio carbon. Trwy reoli ecosystemau'n ofalus, gellir cryfhau'n gallu i wrthsefyll effeithiau'r newid yn yr hinsawdd, fel llifogydd, cyfnodau poeth a thywydd eithafol. Fodd bynnag, mae'r ecosystemau eu hunain yn wynebu llawer o risgiau i effeithiolrwydd eu gweithrediad oherwydd effeithiau'r newid hinsawdd, gan gynnwys dirywiad cyson yr amrywiaeth fiolegol. Felly, er na chaiff hynny ei bwysleisio'n ddigon aml, mae gweithredu i wella ein hecosystemau yn rhan allweddol o'r gwaith sy'n mynd rhagddo i leihau effeithiau'r newid yn yr hinsawdd, sy'n cyd-fynd â'r gwaith o roi atebion technolegol ar waith.

Ymdrin â'r newid hinsawdd trwy ddefnyddio dulliau gweithredu seiliedig ar natur

Mae'r dull o weithredu y darperir ar ei gyfer yn Rhan 1 o Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016, sef rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy, wedi nodi a'i argymhell yn Rhaglen Amgylchedd y Cenhedloedd Unedig (UNEP) a chan Fanc y Byd fel mecanwaith allweddol i ymdrin â'r newid hinsawdd. Mae'n ymwneud â lliniaru'r effeithiau ac addasu i'r newid hinsawdd a hynny

mewn ffordd sy'n trin agweddau economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol fel rhan o ddull trosfwaol sy'n canolbwyntio ar gyflenwi buddion lluosog.

Gan gydnabod pwysigrwydd y dull seiliedig ar natur fel elfen allweddol o'r gweithredu ynghylch newid hinsawdd, mae Llywodraeth Cymru wedi cyflwyno'r Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth Rhyngwladol ynghylch Gweithredu ar Hinsawdd ar Sail Natur, ac mae un o'i lofnodwyr sylfaenol. Lansiodd y Memorandwm yng nghynhadledd yr UN ym Mharis, i ategu'r memorandwm cyd-ddealltwriaeth llwyddiannus '*Under 2 MoU*' a ddatblygwyd gan ein partneriaid, Llywodraethau California a Baden-Württemberg. Cynhwysir testun y Memorandwm yn Atodiad B.

Fel Llywodraeth byddwn yn ymwreiddio'r Polisi Adnoddau Naturiol yn y llwybr at ddatgarboneiddio. Cynlluniwyd Rhannau 1 a 2 o Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru) – ar reoli adnoddau naturiol a'r newid hinsawdd – i weithio ar y cyd. Mae hyn yn cydnabod bod yn rhaid mynd i'r afael â'r newid hinsawdd trwy ddod o hyd i atebion ym myd natur, ac y gall y camau a gymerir at y diben hwn gyfrannu at y gwaith o reoli'n hadnoddau naturiol yn gynaliadwy. Yn Neddf yr Amgylchedd (Cymru), pennwyd targed i sicrhau gostyngiad o 30% mewn allyriadau yng Nghymru erbyn 2050, gan ddefnyddio ffigurau 1990 fel llinell sylfaen. Pennir targedau interim a chyllidebau carbon pum mlynedd fel rhan o'r broses hon. Byddwn yn pennu targedau interim ar gyfer 2020, 2030, 2040 a chyllidebau carbon pum mlynedd ar gyfer 2016-2020 a 2021-2025. Rydym hefyd yn datblygu cynllun cyflenwi sy'n amlinellu sut y byddwn yn cadw at y gyllideb gyntaf a gaiff ei chyhoeddi yn 2019.

Yn ogystal â lleihau allyriadau yn y dyfodol, rhaid inni hefyd gryfhau'n gallu i wrthsefyll y newid yn yr hinsawdd. Yn 2016, cyhoeddodd Pwyllgor Newid Hinsawdd y DU adroddiad tystiolaeth diwygiedig ar yr Aseiad Risg o'r Newid Hinsawdd, a chafwyd ymateb iddo gan Lywodraeth y DU. Mae Llywodraeth Cymru yn ymateb i hyn trwy adolygu'r Strategaeth Newid Hinsawdd a'r Cynllun Cyflawni ar gyfer Ymaddasu, gyda'r nod o adeiladu cydnherthed yn ein cymunedau, ein busnesau, ein gwasanaethau cyhoeddus a'r amgylchedd naturiol.

Mae bioamrywiaeth yn hanfodol i'n hadnoddau naturiol gan mai hyn sydd wrth wraidd y modd mae'n ecosystemau wedi'u strwythuro ac yn gweithio, ac mae arwyddocâd economaidd, cymdeithasol a diwylliannol ehangach ynghlwm wrthi. Ein nod ni yw gwrthdroi dirywiad bioamrywiaeth trwy gynnwys yr angen i ganolbwyntio ar reoli ein hadnoddau naturiol yn gynaliadwy ym mhob maes polisi. Yn adran 6 o Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru), rhoddwyd dyletswydd bioamrywiaeth a chydnerthed ecosystemau (dyletswydd adran 6) ar Gyrrff Cyhoeddus yng Nghymru, gan gynnwys Llywodraeth Cymru. Mae'r ddyletswydd yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau cyhoeddus ymdrechu i gynnal a gwella bioamrywiaeth a, thrwy hynny, hyrwyddo cydnherthed ecosystemau fel rhan o'u cynlluniau busnes a'u gweithgareddau o ddydd i ddydd.

Caiff y gwaith o wella bioamrywiaeth ei lywio hefyd gan y Cynllun Adfer Natur Cymru a gyhoeddwyd yn 2015, a nod hwn yw:

- Ymgysylltu a chynorthwyo cyfranogi a dealltwriaeth er mwyn gwreiddio bioamrywiaeth ledled y penderfyniadau a wneir ar bob lefel
- Diogelu'r rhywogaethau a'r cynefinoedd pwysicaf, a gwella'r modd y'u rheolir, gan gynnwys y gofyniad i Weinidogion Cymru baratoi a chyhoeddi rhestr o'r organebau byw pwysicaf a'r mathau pwysicaf o gynefinoedd o safbwynt cynnal a gwella bioamrywiaeth yng Nghymru;
- Cynyddu cydnerthedd ein hamgylchedd naturiol trwy adfer cynefinoedd a ddiraddiwyd, a chreu cynefinoedd
- Mynd i'r afael â'r pwysau allweddol sydd ar rywogaethau a chynefinoedd
- Gwella ein tystiolaeth, ein dealltwriaeth a'n systemau monitro; a
- Sefydlu fframwaith llywodraethu a chymorth ar gyfer cyflenwi

Mae'r amcanion hyn yn rhan o'r hyn y byddwn yn ei gyflenwi'n unol â'n hymrwymadau rhyngwladol i'r Confensiwn ar Amrywiaeth Fiolegol a thargedau Aichi, er mwyn cyflawni ein rhwymedigaethau bioamrywiaeth¹⁸.

Penderfyniad y DU i adael yr UE

Mae'r fframwaith polisi, cyfreithiol ac ariannol ar gyfer rheoli ein hadnoddau naturiol yng Nghymru, yn rhan annatod o fframwaith gweithredu'r Undeb Ewropeaidd. Y meysydd sydd wedi'u cynnwys yn y Polisi Adnoddau Naturiol felly yw'r rhai y bydd y penderfyniad i adael yr UE yn effeithio fwyaf arnynt. Er mwyn i'r polisi fod yn effeithiol, rhaid i'r PAN fedru gweithredu yng nghydestun y penderfyniad i adael yr UE. Bydd cydnerthedd ein hadnoddau naturiol a'r cyfleoedd y maent yn eu cynnig yn fwy hanfodol fyth i ffyniant a diogelwch Cymru yn y dyfodol wrth inni ail-ddiffinio ein safle yn y byd.

Wrth weithio gyda rhanddeiliaid i ddatblygu'r polisi ers y refferendwm, daeth yn amlwg y bydd ein hadnoddau naturiol yn bwysig iawn i ddyfodol Cymru yn ystod y cyfnod ar ôl gadael yr UE. Er enghraifft, daeth yn amlwg:

- bod cynnal ein safonau amgylcheddol a gweithredu i wella cydnerthedd ein hadnoddau naturiol yn allweddol i'r enw da sydd gan Gymru am gynnwys o safon uchel. Bydd hyn yn parhau'n hollbwysig i gystadleurwydd ein diwydiannau sy'n seiliedig ar adnoddau naturiol;
- bod cyfleoedd i ychwanegu rhagor o werth ar hyd y cadwyni cyflenwi, arloesi ac arallgyfeirio yn bwysig ar gyfer lliniaru effeithiau gwaethaf posibl Brexit ar y sectorau sy'n wynebu'r bygythiad mwyaf. Mae hyn yn cynnwys ehangu'r gwaith o ddatblygu marchnadoedd ynni adnewyddadwy, carbon, dŵr, bywyd gwyllt, dyframaeth a thwristiaeth;
- bod gweithio gyda natur Cymru i wella cydnerthedd ein hecosystemau, er enghraifft, i gynnal cynhyrchiant ein priddoedd a'n moroedd, yn bwysig i ddichonoldeb economaidd hirdymor amaethyddiaeth, coedwigaeth a physgodfeydd;

¹⁸ www.cbd.int

- y gall hyrwyddo'r economi gylchol a thwf gwyrdd, er mwyn gwella effeithlonrwydd, lleihau'r defnydd anghynaliadwy o adnoddau, lleihau llygredd a defnyddio mwy o ynni adnewyddadwy, gynyddu proffidoldeb a lliniaru rhywfaint ar y risgiau economaidd sy'n gysylltiedig â Brexit;
- y gall sefydlu marchnadoedd mewn gwasanaethau ecosystem allweddol helpu i leihau perygl llifogydd, gwella ansawdd dŵr a storio carbon mewn priddoedd. Gall hefyd greu cyfleoedd pellach i fusnesau, ar y tir a'r môr, arallgyfeirio a gwella'u cydnerthedd economaidd;
- trwy dargedu gwaith amgylcheddol i wella cymunedau, gan gynnwys gwella ansawdd aer, gwella mynediad i fannau gwyrdd a glas, a chydabod gwerth ein tirweddau, y gellir hefyd wella ymhellach yr hyn y gall Cymru ei gynnig i dwristiaid.

Bydd y PAN yn bwysig o ran gweithredu ein deddfwriaeth Gymreig ein hunain a fydd yn parhau ar ôl Brexit. Ond mae hefyd yn cyfrannu at ein gallu i fodloni'r rhwymedigaethau rhyngwladol a fydd yn parhau i fod yn gymwys yn y DU. Mae'n rhan bwysig o'n cyfrifoldeb byd-eang ac o'n cyfraniad i gymryd camau i liniaru'r peryglon sydd ynghlwm wrth reoli a defnyddio adnoddau naturiol yn anghynaliadwy.

Gweithio gyda phartneriaid i sicrhau'r dyfodol gorau posibl ar ôl gadael yr UE

Yn syth ar ôl cyhoeddi canlyniad y refferendwm ar aelodaeth y DU o'r Undeb Ewropeaidd, sefydlwyd Bord Gron Brexit ar gyfer yr holl feysydd y mae Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig yn ymdrin â nhw. Mae'r Ford Gron yn cynnwys cynrychiolwyr o bob sector o fewn cyfrifoldeb yr adran, a chan gydnabod pwysigrwydd y Polisi Adnoddau Naturiol yn y cyd-destun hwn, mae'r cynrychiolwyr wedi cyfrannu at ddatblygu'r polisi hwnnw. Gwnaed datblygiad y polisi yn rhan allweddol o'r sesiynau gweithdy a gynhaliwyd gyda'r Ford Gron ei hunan a chyda fforymau sector. Mae'r ymgysylltiad hwn wedi cyfrannu hefyd at ddatblygiad Papur Gwyn Llywodraeth Cymru: '*Diogelu Dyfodol Cymru – Pontio o'r Undeb Ewropeaidd i berthynas newydd ag Ewrop*'.

Ar ôl sefydlu gweithgorau ar gyfer *masnach a chadwyni cyflenwi; tystiolaeth a senarios; rheoli tir; moroedd a'r arfordir; aer a'r hinsawdd, pobl a chymunedau a, deddfwriaeth a rheoliadau*, y cam allweddol nesaf yng ngwaith y Ford Gron fydd llywio'r gwaith o weithredu'r PAN.

Ein blaenoriaethau cenedlaethol

Mae'r adran hon yn adeiladu ar y cyfleoedd a'r heriau a ddisgrifir yn y penodau blaenorol ac yn nodi'n tair blaenoriaeth genedlaethol ar gyfer rheoli adnoddau naturiol Cymru.

Datblygwyd y blaenoriaethau hyn i gynorthwyo i weithredu ein Rhaglen Lywodraethu a'r strategaeth genedlaethol, 'Ffyniant i Bawb', a fydd yn ein helpu i wneud hynny.

Mae'r blaenoriaethau hefyd yn ymwreiddio cyfraniad ein Hadnoddau Dynol yn yr holl Nodau Llesiant, ac yn hybu dulliau integredig, hirdymor o weithredu, a hynny'n unol â'n ffyrdd newydd o weithio.

Mae gan bawb fuddiant yn ein hadnoddau naturiol a gall bawb gyfrannu at sicrhau bod yr adnoddau hyn yn cael eu rheoli'n gynaliadwy. Ar sail yr ymatebion a gafwyd i'r ymgynghoriad, a chasgliadau'r broses ymgysylltu eang, daeth tair egwyddor genedlaethol i'r amlwg o ran rheoli'n adnoddau naturiol, sef:

- Dod o hyd i atebion seiliedig ar natur;
- Cynyddu ynni adnewyddadwy a dulliau o ddefnyddio adnoddau'n fwy effeithlon; a
- Mabwysiadu dull sy'n seiliedig ar leoedd.

Datblygwyd y blaenoriaethau hyn i weithio ar y cyd i fynd i'r afael â'r heriau ac i wireddu'r cyfleoedd y mae ein hadnoddau naturiol yn eu cynnig.

Byddwn yn cysoni'n polisïau â'r blaenoriaethau hyn ac yn defnyddio'r fframwaith sy'n deillio o ddeddfwriaeth Cymru, i sbarduno'r gwaith.

Dod o hyd i atebion seiliedig ar natur

Gall ecosystemau iach, cryf ac amrywiol gynnig atebion i'r heriau mawr sy'n ein hwynebu ac sydd hefyd o fudd i'n cymdeithasau. Maent yn cynnig ffyrdd costeffeithiol ac effeithlon o drawsnewid yr heriau hynny a chreu cyfleoedd i arloesi. Wrth wneud hynny, gellir defnyddio adnoddau naturiol i sbarduno twf gwyrdd a datblygu cynaliadwy.

Mae tystiolaeth gynyddol sy'n dangos bod modd gwneud enillion da trwy fuddsoddi yn ein hadnoddau naturiol, a bod cyfraddau'r enillion yn cymharu â phrosiectau buddsoddi mewn seilwaith mwy traddodiadol. Mae hyn yn arbennig o wir yn achos buddsoddi yn ein seilwaith naturiol. Mae'r Adroddiad ar Gyflwr Adnoddau Naturiol hefyd yn dangos mai'r meysydd hyn sy'n cyfrannu fwyaf at gryfhau ecosystemau ac at yr holl nodau llesiant:

- Cynyddu'r seilwaith gwyrdd mewn ardaloedd trefol ac o'u hamgylch;

- Rheoli ac addasu parthau arfordirol;
- Cynyddu brigdwf a choetiroedd mewn lleoliadau priodol, er enghraifft ar gyrion trefi a dinasoedd, lle y byddant fwyaf gwerthfawr o ran hamdden a gwasanaethau ecosystem;
- Cynnal, gwella ac adfer llifdiroedd a systemau hydrolegol i leihau'r risg o lifogydd ac i wella ansawdd dŵr a'r cyflenwad ohono; ac
- Adfer ein hucheldir a'i reoli o safbwynt diogelu buddion bioamrywiaeth, carbon, dŵr, perygl llifogydd a hamdden.

Bydd datblygu marchnadoedd ar gyfer gwasanaethau ecosystem hefyd yn ffordd bwysig o roi'r Polisi Adnoddau Naturiol ar waith. Trwy ddod o hyd i ffyrdd o gynhyrchu incwm o'r gwasanaethau y mae ein hecosystemau'n eu cynnig, megis ansawdd dŵr, lleihau perygl llifogydd neu ddiogelu ffynonellau carbon, i enwi dim ond rhai, gellir helpu busnesau a chymuned a gwella'n hamgylchedd. Rydym yn gweithio gyda Chyfoeth Naturiol Cymru a rhanddeiliaid i ddatblygu'r rhain trwy geisio chwalu'r rhwystrau, datblygu partneriaethau ac ystyried unrhyw newidiadau angenrheidiol i reoliadau.

Enghreifftiau o Atebion Seiliedig ar Natur

Mae atebion sy'n seiliedig ar natur yn cynnwys:

- cynorthwyo i ddatblygu rhwydweithiau ecolegol cydnerth, er mwyn cynnal a gwella cydnerthedd ecosystemau Cymru;
- hybu dulliau o liniaru ac addasu i effeithiau newid hinsawdd, ac o reoli perygl llifogydd;
- gwella seilwaith – fel y seilwaith gwyrdd a systemau trin dŵr, er enghraifft systemau draenio trefol cynaliadwy, pantiau a gwelyau cyrs;
- gwella dulliau o reoli tir a dŵr – er enghraifft, defnyddio dulliau integredig o reoli ac addasu'r parth arfordirol ac o reoli adnoddau dŵr, dulliau naturiol o reoli llifogydd, gwella rheolaeth pridd ar gyfer dal a storio carbon, ansawdd dŵr a pharhad cynhyrchiant, er enghraifft rheoli mawnogydd, coridorau torlan a phlannu gwrychoedd yn strategol ar ffermydd.

Cynyddu ynni adnewyddadwy ac effeithlonrwydd adnoddau, a meithrin arloesi

Yn ogystal ag ystyried sut rydym yn rheoli'n tir a'n moroedd, mae angen inni hefyd ystyried sut y gallwn reoli'n hadnoddau naturiol yn fwy effeithlon. Gall hyn helpu i leihau'r pwysau sy'n wynebu'n hadnoddau naturiol, creu swyddi newydd a chyfleoedd yn y farchnad a lleihau costau gweithredu a'r ansicrwydd sy'n deillio o ansefydlogrwydd y farchnad.

Yn y modd hwn, gallwn adeiladu ar ein llwyddiant ym maes ynni adnewyddadwy ac ailgylchu.

Mae datblygu economi sy'n defnyddio adnoddau'n fwy effeithlon yn hanfodol i'r twf gwyrdd. Mae economi Cymru yn defnyddio llawer iawn o adnoddau naturiol gan gynnwys dŵr, trydan (adnewyddadwy ac o danwydd ffosil), mwynau (gan gynnwys metelau ac agregau), coed a bwyd. Cymerwyd camau yng Nghymru i ddatblygu economi fwy cylchol, sy'n ymestyn y defnydd cynhyrchiol o ddeunyddiau crai, ac mae hynny eisoes yn lleihau'r galw am ddeunyddiau. Trwy ddatblygu hyn ymhellach, gellid lleihau'n heffaith ar ein hadnoddau naturiol yn sylweddol gan hefyd greu mwy o gyfleoedd i greu gwaith a thwf economaidd cynaliadwy, a helpu i fynd i'r afael â'r bygythiadau i ddiogelwch hirdymor y cadwyni cyflenwi.

Moderneiddio'r diwydiant adeiladu ac ychwanegu gwerth i'r gadwyn cyflenwi coed drwyddi draw

Gellid lleihau'r deunyddiau y mae'r diwydiant adeiladu'n eu defnyddio pe bai'n defnyddio economi gylchol. Mae'r diwydiant hwn yn defnyddio mwy o ddeunyddiau crai nag unrhyw ddiwydiant arall a chaiff 80% o'r holl ddeunyddiau a gynhyrchir eu defnyddio yn yr amgylchedd adeiledig. Trwy ystyried effaith adeiladau a'r cynhyrchion ynddynt dros eu hoes gyfan – o'r cysyniad, y gwaith dylunio ac adeiladu, y modd y cânt eu defnyddio, eu cynnal a'u cadw a'u dymchwel – ceir cyfleoedd economaidd sylweddol.

Trwy gynyddu'r defnydd o bren yn y diwydiant adeiladu, gellid cyfuno atebion seiliedig ar natur ag economi gylchol ac, o ganlyniad mae pawb ar eu hennill. Gellid defnyddio pren, sy'n ddeunydd adeiladu effeithiol, yn lle deunyddiau mwy cyffredin ond llai cynaliadwy. Mae'n ddeunydd carbon isel os caiff ei gynaeafu o goedwigoedd a reolir yn gynaliadwy. Os defnyddir pren yn lle deunyddiau carbon-ddwys – gan gynnwys dur neu goncrit, nid yn unig y mae'n ddull adeiladu carbon isel ond mae hefyd yn storio carbon. Caiff llai o wastraff ei greu wrth ei gynhyrchu ac wrth ddymchwel, oherwydd gellir adfer ac aildefnyddio isgynhyrchion a gwastraff coed mewn gorsafoedd pŵer biomas. Mae tai modiwlaid hefyd yn gyfle arall i ddatblygu proses adeiladu mwy effeithlon ac o safon uwch.

Mae ein buddsoddiad ni fel Llywodraeth i godi 20,000 o dai fforddiadwy yng Nghymru yn gyfle i ddefnyddio deunyddiau a dulliau adeiladu arloesol. Gallai hyn gynnwys hybu'r defnydd o goed wrth adeiladu. Byddai hyn yn helpu i ddatblygu cadwyni cyflenwi lleol ar gyfer sector adeiladu modern.

Mabwysiadu dull sy'n seiliedig ar le

Un o nodweddion sylfaenol ein dull o reoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy yw'r modd rydym yn canolbwyntio ar gydweithio i gyflawni canlyniadau'n lleol. Y cymunedau eu hunain sydd yn y sefyllfa orau i ddeall blaenoriaethau lleol ac i ddyllanwadu arnynt, ac i ddod o hyd i atebion sy'n cynnig y buddion ehangaf posibl. Mae hon yn ffordd hefyd o ddatblygu atebion newydd a'u

treialu. Mae'r dystiolaeth yn dangos hefyd nad yw pobl leol bob amser yn cael budd llawn o'r adnoddau naturiol yn eu hardal.

Mae'n hanfodol cydweithredu ar y raddfa briodol, (ar safle penodol, mewn rhanbarth neu ddalgylch penodol neu o safbwynt tirwedd neu ecosystem) ac yn y lle priodol, er mwyn datrys problemau a sicrhau'r manteision mwyaf posibl. Bydd Datganiadau Ardal yn chwarae rhan allweddol o ran adnabod y cyfleoedd a'r cyfyngiadau lleol, a'u cysylltiad â'r blaenoriaethau cenedlaethol.

Treialu'r dull seiliedig ar ardal

Mae Cyfoeth Naturiol Cymru wedi symud ymlaen i gynnal treialon mewn tair ardal er mwyn treialu'r dull hwn, yn barod ar gyfer y Datganiadau Ardal o dan Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru). Roedd un o'r treialon, yn ardal Rhondda, yn canolbwyntio ar yr asedau naturiol a'r cyfleoedd yn yr ardal, ac ar fynd i'r afael â phroblem tanau gwyllt (trwy'r prosiect cydweithredol 'Healthy Hillsides'). Roedd hyn yn cynnwys buddsoddi mewn seilwaith hamdden yng nghoedwig Llanwynno ac yng Nghanolfan Awyr Agored Daerwynno, gweithio gyda natur i adfer yr amgylchedd dŵr naturiol yng Nghwm-parc (adfer tir mawn) a darparu hyfforddiant amgylcheddol i grwpiau cymunedol lleol.

Gyda grwpiau cymunedol yn rhan annatod o'r cynllun cyffredinol, mae Prosiect Creu Coedwig Cwm Llynfi wedi canolbwyntio ar wella cydnerthed ecosystemau, tra'n hyrwyddo iechyd ac yn dwyn cymunedau ynghyd. Plannwyd coed a llwyni llydanddail i ategu'r rheolaeth cynefinoedd a rhywogaethau a oedd yn digwydd eisoes, a bydd hynny'n lleihau'r dŵr ffo sy'n llifo i'r cyrsiau dŵr gerllaw. Mae cyfres o lwybrau iechyd, cerfluniau, pyllau a champfa werdd yn darparu lle i bobl ymlacio, ymarfer a chymdeithasu mewn lleoliad coediog tawel; gyda'r nod o wella llesiant y gymuned leol.

Cafodd enghreifftiau eraill eu datblygu trwy'r Cynllun Rheoli Cynaliadwy o dan y Rhaglen Datblygu Gwledig.

Cyflenwi trwy gyfrwng ein polisiau

Er mwyn rhoi'r Polisi Adnoddau Naturiol ar waith, rhaid inni sicrhau bod ein polisiau'n gydnaws â'r blaenoriaethau cenedlaethol rydym wedi'u nodi. Yn yr adran hon, rydym yn dangos sut y byddwn yn gwneud hyn yn ein meysydd polisi allweddol.

Polisi Economaidd

Mae economi gref, sy'n cyflawni ar gyfer pobl ym mhob cwr o Gymru, yn hanfodol os ydym am greu'r Gymru uchelgeisiol, iach, ffyniannus ac unedig a ddymunwn. Mae'r gwahaniaeth y gallwn ei wneud i lwyddiant ein busnesau, i gryfder ein cymunedau ac i gyfleoedd bywyd yn dibynnu, i raddau helaeth, ar ein rhagolygon economaidd.

Dyma'r tri phrif flaenoriaeth y byddwn yn bwrw ymlaen â nhw drwy'n strategaeth genedlaethol:

- cefnogi pobl a busnesau er mwyn hyrwyddo ffyniant;
- mynd i'r afael ag anghydraddoldebau rhanbarthol a hyrwyddo gwaith teg;
- hyrwyddo twf cynaliadwy.

Ein nod yw creu economi yng Nghymru sy'n sicrhau ffyniant i genedlaethau'r presennol a'r dyfodol ac a fydd, ar yr un pryd, yn cynnig cyfleoedd i bawb ac yn mynd i'r afael ag anghydraddoldeb. Er mwyn cyrraedd y nod hwnnw, mae angen inni gydweithio ar draws y llywodraeth, gan wneud hynny hefyd drwy'n polisiau a'n gwaith ym maes iechyd, addysg ac adnoddau naturiol. Mae gan ein hadnoddau naturiol gyfraniad allweddol i'w wneud i'n system economaidd. Mae poblogaeth y byd yn tyfu ac mae mwy o weithgarwch datblygu economaidd o'r herwydd, a gallai hynny olygu y bydd mwy o gystadlu am adnoddau na ellir eu hadnewyddu ac y byddwn hefyd yn defnyddio mwy ohonynt. Bydd mantais gystadleuol gan y busnesau hynny a fydd yn gallu defnyddio'r adnoddau hynny mewn ffordd fwy effeithlon a chynaliadwy. Byddwn, felly, drwy'n polisi economaidd, yn helpu busnesau i ddefnyddio adnoddau mewn ffordd fwy effeithlon, gan sicrhau, wrth wneud hynny, bod ein heconomi'n fwy cystadleuol a chydnerth.

Ynni adnewyddadwy

Mae gan Gymru ystod eang o adnoddau ynni naturiol a charbon isel, gan gynnwys cyfleusterau ynni adnewyddadwy ar y tir a ger y glannau, ynni niwclear a gwres. Mae ein hadnoddau naturiol yn cynnig cyfleoedd i ddatblygu economi carbon isel ac mae angen eu rheoli yn ddoeth er mwyn inni fedru parhau i fwynhau'r manteision sydd ynghlwm wrthynt. Ein nod yw sefydlu economi carbon isel a fydd yn creu swyddi a ffyniant hirdymor, trwy weithio mewn partneriaeth â busnesau a chymunedau. At y diben hwn, byddwn yn:

- defnyddio datgarboneiddio i sbarduno twf cynaliadwy ac ehangu marchnadoedd sy'n seiliedig ar garbon isel, ynni adnewyddadwy,

nwyddau sy'n defnyddio adnoddau'n effeithlon a gwasanaethau sy'n ychwanegu gwerth at y modd y byddwn yn defnyddio'n hadnoddau naturiol

- gwneud y gorau o brosesau cynhyrchu adnewyddadwy i ddarparu ynni carbon isel dibynadwy a fforddiadwy i Gymru. Bydd datgarboneiddio'r sector ynni yn cyfrannu at ein gallu i gyflenwi ein Cyllidebau Carbon.
- helpu i gyflenwi ynni carbon isel drwy gyfuniad o wahanol dechnolegau a phrosiectau o wahanol feintiau, o brosiectau cymunedol i brosiectau mawr. Bydd Datganiadau Ardal, y Fframwaith Datblygu Cenedlaethol a Chynlluniau Datblygu Lleol yn darparu'r dystiolaeth y bydd eu hangen arnom i nodi lle y gallai prosiectau ynni penodol fod yn briodol.
- helpu cymunedau a busnesau i ddefnyddio trydan a gwres a gynhyrchir yn lleol o ffynonellau adnewyddadwy. Bydd Gwasanaeth Ynni Lleol Llywodraeth Cymru yn eu helpu i wneud hynny. Byddwn hefyd yn pennu targedau uchelgeisiol ar gyfer ynni adnewyddadwy.
- buddsoddi yn y sgiliau y bydd eu hangen yng Nghymru er mwyn medru cystadlu mewn economi fyd-eang sy'n datgarboneiddio, gan gynnal twf ac arloesedd cynaliadwy a fydd yn datblygu economi carbon isel sy'n defnyddio adnoddau'n effeithlon.
- sicrhau bod ein trefniadau rheoleiddio a chydsynio yn ein helpu i ddefnyddio technolegau ynni adnewyddadwy yn effeithiol.

Defnyddio adnoddau'n effeithlon

Mae datblygu economi sy'n defnyddio adnoddau'n fwy effeithlon yn rhan hanfodol o'r twf gwyrdd. At y diben hwn, byddwn yn:

- datblygu trywydd ar gyfer economi gylchol sy'n defnyddio adnoddau'n fwy effeithlon, gan adeiladu ar ein llwyddiant ym maes ailgylchu a bwrw ymlaen â'r nod o fod yn well na'r un wlad arall.
- datblygu pecyn economi gylchol ar gyfer buddsoddi mewn cyfleoedd economaidd, gan gynnwys fframweithiau rheoleiddiol eglur a chymorth i fuddsoddi.
- adeiladu ar y cyfleoedd ar gyfer twf gwyrdd a amlinellir yn y Rhaglen Atal Gwastraff <http://gov.wales/docs/desh/publications/131203waste-prevention-programme-document-cy.pdf>
- gweithio gyda SMART Cymru i sicrhau bod defnyddio adnoddau'n effeithlon yn rhan annatod o'u rhaglen gymorth i fusnesau bach a chanolig sy'n arloesi.
- defnyddio prosesau caffael cyhoeddus i ddod o hyd i gyfleoedd i gydweithio er mwyn datblygu dulliau gweithgynhyrchu yng Nghymru sy'n defnyddio adnoddau'n effeithlon (gan gynnwys ailweithgynhyrchu).

Comisiwn Seilwaith Cenedlaethol Cymru

Rydym wedi ymrwmo i ddatblygu strategaeth fwy hirdymor a gwybodus ar gyfer buddsoddi mewn seilwaith, ac a fydd yn arddel egwyddorion Deddf

Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol. Er mwyn cyflawni hyn, rydym yn sefydlu Comisiwn Seilwaith Cenedlaethol Cymru (y Comisiwn) cyngorol anstatudol i ddarparu cyngor strategol annibynnol ac arbenigol. Yn dilyn ymgynghoriad cyhoeddus, rydym wedi cadarnhau'r canlynol:

- bydd y Comisiwn yn dadansoddi'r anghenion seilwaith economaidd ac amgylcheddol ac yn ystyried y berthynas â'r seilwaith cymdeithasol.
- byddwn yn sicrhau y bydd y Comisiwn, wrth gynghori ynghylch yr anghenion seilwaith strategol hirdymor, yn ystyried dyletswyddau Gweinidogion Cymru o dan Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru), gan gynnwys rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy a'r Ddyletswydd Bioamrywiaeth a Chydnherthedd Ecosystemau.

Diwygio Rheoleiddio

Byddwn yn parhau i ddefnyddio'r dulliau rheoleiddio sydd gennym a byddwn yn archwilio cyfleoedd i reoleiddio yn fwy deallus a hyblyg, gan sicrhau y cynhelir y safonau amgylcheddol presennol. At y diben hwn, byddwn yn:

- gweithio i sicrhau bod ein deddfwriaeth yn cyfrannu at reoli ein hadnoddau naturiol yn gynaliadwy mewn ffordd gyson, gymesur a phenodol.
- nodi cyfleoedd i wella'n fframwaith deddfwriaethol er mwyn manteisio ar y cyfleoedd sydd ynghlwm wrth reoli'n hadnoddau naturiol yn gynaliadwy. Bydd hyn hefyd yn ein helpu i gryfhau fel cenedl wrth inni adael yr Undeb Ewropeaidd.
- ystyried potensial gwahanol dulliau rheoleiddio i gymhwyso safonau yn gyson er mwyn gwella rheolaeth ein hadnoddau naturiol, ac sy'n helpu i fynd i'r afael ag effeithiau llygredd gwasgaredig
- parhau i archwilio cynlluniau arloesol, fel talu am wasanaethau ecosystem, a allai helpu i ryddhau arian ar gyfer cynlluniau ychwanegol yn ymwneud â rheoli dŵr, cynefinoedd neu garbon
- gweithio gyda Chyfoeth Naturiol Cymru i dreialu dulliau newydd o weithredu gan ddefnyddio'i bwerau i ymgymryd â chynlluniau arbrofol.
- gwella ein fframwaith deddfwriaethol trwy roi sylw i faterion mewn deddfwriaeth hynafol, gan sicrhau ei bod yn gydnaws â'r dull newydd y darperir ar ei gyfer yn Neddf yr Amgylchedd (Cymru) ac yn parhau â'n gwaith i roi fframwaith rheoleiddio craffach, mwy modern ac effeithlon ar waith.

Amaethyddiaeth a Bwyd

Mae angen i Gymru gynnal amrywiaeth o ffermydd, o safbwynt math o ffermydd a'u maint, a sicrhau dyfodol dichonadwy i ffermydd yn yr ucheldir ac ar lawr gwlad, o fewn fframwaith amaethyddol hyblyg. Mae'n debygol y bydd patrymau ffermio yn y dyfodol yn wahanol i'r dulliau presennol, a bydd angen bod yn greadigol i fanteisio ar y cyfleoedd newydd a fydd yn hybu busnesau ffermio llwyddiannus ac adeiladu ar gryfderau a chymeriad penodol adnoddau naturiol Cymru.

Ar yr adeg hon, pan fo'r diwydiant yn newid yn sylweddol, rydym am gynyddu'r cyfleoedd sydd ar gael i ffermwyr. Rhan bwysig o hyn yw datblygu marchnadoedd ar gyfer gwasanaethau ecosystem, fel rheoli dŵr a charbon. Bydd y Polisi Adnoddau Naturiol hefyd yn cyfrannu at y broses o ddatblygu cynlluniau cymorth amaethyddol yn y dyfodol. Mae rhanddeiliaid yn cytuno bod angen i amaethyddiaeth yng Nghymru gynnal ei safonau uchel mewn perthynas â'r amgylchedd ac iechyd a lles anifeiliaid er mwyn medru parhau i fod yn gystadleuol yn y farchnad. Rhaid inni fynd i'r afael â'r heriau sy'n parhau, fel llygredd gwasgaredig o ddŵr ffo amaethyddol, nifer y digwyddiadau ar ffermydd a rhaid hefyd lleihau allyriadau nwyon tŷ gwydr o wastraff anifeiliaid, trwy reoli maethynnau yn well. Yn y cyd-destun hwn, byddwn yn:

- hybu gwaith i gynyddu cydnerthedd cadwyni cyflenwi ym maes amaethyddiaeth a bwyd, gan greu gwerth ychwanegol a gwella'u gallu i broses;
- cynorthwyo busnesau i arallgyfeirio ac i fanteisio ar y marchnadoedd presennol a marchnadoedd sy'n datblygu, gan wella'u gallu i wrthsefyll y peryglon sydd ynghlwm wrth adael yr UE;
- cynyddu cyfran Cymru o farchnadoedd domestig y DU, yn enwedig marchnadoedd ar gyfer bwyd a diod o safon
- cynnal a gwella'r bioamrywiaeth, y cynefinoedd a'r nodweddion hanesyddol ar dir fferm er mwyn cyfrannu at gynyddu cydnerthedd ecosystemau a'r buddion i gymdeithas.
- helpu i greu cadwyni cyflenwi cydnerth ym meysydd amaethyddiaeth a bwyd, gan annog y sectorau bwyd ac amaeth a chwmnïau cydweithredol i weithio ar y cyd, a chreu cyfleoedd marchnata newydd ar gyfer cynhyrchion, yn lleol ac yn rhyngwladol.
- hybu cyfleoedd i arallgyfeirio trwy ddefnyddio cynlluniau treulio anaerobig i drin gwastraff bwyd
- parhau i gydgyssylltu ac ymwreiddio'r arferion gorau ar gyfer rheoli ein hadnoddau pridd yn gynaliadwy. Caiff hyn ei wneud trwy fonitro tueddiadau mewn stoc garbon, gwella dealltwriaeth o'r adnodd pridd a thanlinellu pwysigrwydd gweithredol bioamrywiaeth y pridd a'r tueddiadau mewn macrofaethynnau a'r dulliau o'u rheoli.

Iechyd a Lles Anifeiliaid

Mae codi safonau iechyd a lles anifeiliaid yn fater y mae gan bawb yng Nghymru fuddiant ynddo. Mae goblygiadau enfawr, i'r amgylchedd ac i'r gymdeithas gyfan, yn gysylltiedig â'r dull o fridio, magu a gofalu am anifeiliaid trwy gydol eu hoes, a'r polisiâu iechyd a lles a fabwysiedir i reoli'r risgiau o afiechydon. Gall achosion o afiechyd a'r camau a gymerir i'w rheoli ysgogi canlyniadau difrifol a chostus i iechyd y cyhoedd, yr economi a'r amgylchedd. Mae Fframwaith Iechyd a Lles Anifeiliaid Cymru yn cynnwys ein cynllun ar gyfer iechyd a lles anifeiliaid sy'n cael eu cadw, ac mae hynny hefyd yn helpu i ddiogelu iechyd y cyhoedd a chyfrannu at yr economi a'r amgylchedd. Trwy roi'r Fframwaith ar waith, byddwn yn:

- diogelu enw da Cymru fel gwlad sydd â'r safonau uchaf o ran iechyd a lles anifeiliaid.
- sicrhau bod gan Gymru ddiwydiant da byw cynaliadwy ac iach. Mae anifeiliaid iachach a mwy cynhyrchiol yn lleihau'r effaith ar yr amgylchedd, yn cynnal ac yn gwella gwerth genetig anifeiliaid ac yn cryfhau enw da Cymru fel gwlad sy'n darparu bwyd o safon.
- gwella safonau bioamrywiaeth i leihau'r perygl i glefydau godi a lledaenu. Gall hyn helpu i leihau allyriadau tŷ gwyrdr a gwella ansawdd dŵr a phridd.
- gwella cydnerthedd trwy barhau i weithio gyda diwydiant i helpu i leihau'r perygl i glefydau godi trwy baratol cynlluniau wrth gefn effeithiol.
- lleihau effaith clefydau anifeiliaid i ddiogelu cymunedau gwledig a chynnal busnesau ffermio proffidiol - helpu i ddiogelu a chreu swyddi.

O'i chymharu â'r rhan fwyaf o wledydd Ewrop a llawer o rannau eraill o'r byd, mae statws y DU hefyd yn uchel mewn perthynas ag anifeiliaid dyfrol, ac nid yw'r rhan fwyaf o'r clefydau difrifol sy'n effeithio ar anifeiliaid dyfrol i'w cael yma. Mae'r statws hwn yn helpu i greu amgylchedd iach ac economi sy'n ffynnu yng nghefn gwlad. Trwy'r cydgynllun wrth gefn ar gyfer clefydau hysbysadwy ac sy'n datblygu mewn anifeiliaid dyfrol yng Nghymru a Lloegr, byddwn yn:

- cynnal y statws hwn a chyfrannu at greu cenedl sydd wedi'i diogelu'n well rhag clefydau anifeiliaid, ac sydd â'r gallu i ymateb yn dda i achosion o'r fath.

Coed a Choetiroedd

Mae ein coed a'n coetiroedd yn hanfodol os ydym am roi ein blaenoriaethau cenedlaethol ar waith. Mae angen coetiroedd amrywiol, mawr a bach, ar Gymru, sy'n cynnwys rhywogaethau conwydd a llydanddail. Mae hefyd angen gwneud rhagor i integreiddio coetiroedd a dulliau eraill o ddefnyddio tir a chael gwared ar y duedd hanesyddol i wahaniaethu rhwng rheoli tir amaethyddol a choetiroedd. Rhaid inni hefyd gydnabod ei bod yn hanfodol cynyddu nifer y coed yn ein trefi. Bydd angen creu coedlannau newydd a sefydlu coed i greu cysylltedd gwell rhwng y llecynnau o gynefin coetir, cynyddu maint y llecynnau a rhoi sylw i'r prif heriau sy'n wynebu ardaloedd gwledig a threfol. Wrth fwrw ymlaen â hyn, byddwn yn:

- hybu prosesau da ar gyfer cynllunio a rheoli coedwigoedd, fel eu bod yn ychwanegu at gymeriad ac ansawdd y dirwedd, yn gwella gwerth bioamrywiol y coedwigoedd ac yn sicrhau buddion ehangach, megis rheoli perygl llifogydd.
- cryfhau gallu coedwigoedd i wrthsefyll y newid yn yr hinsawdd, plâu a chlefydau drwy ddewis rhywogaethau mwy addas a mwy brodorol a mabwysiadu dulliau rheoli mwy ymaddasol
- cynyddu cysylltiadau rhwng perthi gan roi cyfran gynyddol ohonynt o dan reolaeth gadarnhaol hirdymor, a'u hadfer os collwyd hwy, neu os

ydynt yn goroesi fel nodweddion creiriol. Dylai rheolaeth perthi ganiatáu i goed detholedig ynddynt dyfu, a dylid ychwanegu atynt trwy blannu fel y bo'n briodol. Mae perthi yn bwysig ar gyfer cysylltedd o fewn y dirwedd, sef un o'r ffactorau sy'n gwella cydnerthedd a all helpu i reoli dŵr a darparu bioddiogelwch a lleiniau cysgodi i anifeiliaid fferm.

- hyrwyddo cynnydd mewn perchnogaeth neu reolaeth coedlannau gan gymunedau, fel adnoddau lleol.
- gofalu bod pob adran yn y llywodraeth yn defnyddio ein coed fel adnoddau o werth uwch, yn enwedig o safbwynt adeiladu tai o safon.
- rheoli coed a choetiroedd sydd â gwerth amgylcheddol uchel, gan gynnwys safleoedd lle ceir coed hynafol, hynod a choed treftadaeth, sef adnodd unigryw sy'n darparu amrywiaeth eang o wasanaethau ecosystem.

Dŵr a llifogydd

Ar ein hucheldir a'n hiseldir, mae cyfleoedd i reoli llifogydd trwy ddefnyddio dulliau naturiol o reoli llifogydd. Ar yr ucheldir, mae hyn yn golygu cynyddu maint y dŵr a gaiff ei storio trwy leihau'r dŵr ffo a selio llai o'r pridd; ac ar yr iseldir, dylid arafu'r llif trwy ragor o'r gorlifdiroedd naturiol. Dylai hyn greu buddion ehangach i'r ecosystemau ac i ansawdd y dŵr. Ar lefel dalgylch, mae cyfleoedd i flaenoriaethu'r modd y rheolir ansawdd dŵr. Dylai hyn greu incwm i berchnogion tir a chryfhau ecosystemau ynghyd â chynnig dull cost-effeithiol o wella ansawdd dŵr. Bydd ein canllawiau statudol i Ofwat yn ei annog i fabwysiadu'r dull hwn. Wrth fwrw ymlaen â'r gwaith ar ddŵr a llifogydd, byddwn yn:

- defnyddio mwy o ddulliau seiliedig ar natur i reoli llifogydd a dŵr, gan gynnwys rheoli risg ac ymaddasu mewn ardaloedd arfordirol. Bydd hyn yn mynd i'r afael â'r problemau yn eu ffynhonnell, a dylai leihau'r costau. Dylid cynllunio ymyriadau a fydd yn cynnig ystod ehangach o fuddion trwy'r modd y rheolir y tir.
- hybu'r defnydd o ddulliau arloesol i gynllunio ar gyfer meintiau dŵr a sychder, a fyddai hwyrach yn cynnwys cymwysadau technolegol newydd i gael mynediad at gyrff dŵr llai, a chreu rhwydwaith cyflenwi mwy gwasgaredig.
- adolygu'r system trwyddedu cynlluniau echdynnu dŵr i sicrhau bod ein hadnoddau dŵr yn gadarn a chydnerth.
- codi ymwybyddiaeth o effeithlonrwydd dŵr a hybu dulliau arloesol o annog pobl i ddefnyddio llai o ddŵr. Os defnyddir llai o ddŵr, defnyddir llai o ynni i'w drin ac i gyflenwi dŵr yfed, ac yn lleihau'n hól troed carbon.
- gwella ein systemau draenio hynafol ledled Cymru, gan roi'r pwyslais ar ddraenio cynaliadwy, seiliedig ar natur, yn ein hardaloedd trefol. Bydd hyn yn cynnwys fframweithiau newydd ar gyfer datblygiadau newydd, a chymhellion i awdurdodau dŵr, carthffosiaeth a draenio ddefnyddio ymyriadau naturiol mewn ardaloedd sydd dan bwysau. Bydd hyn yn ychwanegu at yr ardaloedd gwyrdd ac yn gwella'r cydnerthedd rhag newidiadau yn ein hinsawdd.

Y Polisi Amaethyddol Cyffredin

Dros y deugain mlynedd diwethaf, mae'r Polisi Amaethyddol Cyffredin (PAC) wedi tra-arglwyddiaethu ar yr amgylchedd cyllido yn y sector sy'n seiliedig ar dir. Bydd PAC yn diflannu gyda hyn, a bydd angen polisiau i gymryd ei le, a fydd wedi eu teilwra'n bwrpasol ar gyfer anghenion Cymru wledig ac wedi eu llunio yng nghyd-destun Deddf yr Amgylchedd a Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol. Mae disodli PAC yn cynnig cyfleoedd i wella'r math o gymorth a gynigiwn i reolwyr ein tir, er mwyn sicrhau y rheolir ein hadnoddau naturiol yn gynaliadwy. Yn benodol, trwy ddisodli'r system 2-golofn, sef cymorth uniongyrchol a datblygu gwledig, yn ein galluogi i ddatblygu pecyn o fuddsoddi a chymorth seiliedig ar dir a fydd yn gosod rheolwyr tir mewn safle canolog o fewn economi wledig gynaliadwy a ffyniannus. Bydd y Polisi Adnoddau Naturiol yn llywio'r gwaith o gynllunio a chyflenwi'r pecyn mesurau hwn. Cyflawnir y mesurau gan Lywodraeth Cymru trwy:

- Adolygu'r arferion gorau yn ein cynlluniau cymorth presennol, gyda'r bwriad o ddatblygu rhaglenni newydd trwy adeiladu ar hynny.
- Ystyried y posibilrwydd o gyflwyno dull o ddarparu cymorth mewn cysylltiad â thir a seilir i raddau mwy ar ganlyniadau, gyda'r deiliannau a fynir wedi eu penderfynu yng ngoleuni trafodaethau lleol a'r Datganiadau Ardal.
- Canfod dulliau marchnad i gynyddu'r incwm o weithgareddau ein rheolwyr tir, trwy eu gwobrwyo am y gwasanaethau ecosystem y maent yn eu darparu, megis storio carbon a darparu dŵr glân.
- Gweithredu nifer gynyddol o raglenni cydweithredol ar raddfa tirwedd gyda nifer o bartneriaid, sef rheolwyr tir yn ogystal â buddiolwyr ehangach, a'u cynnwys wrth benderfynu ar y ffordd orau i gyflenwi'r buddion a geisiwn.
- Defnyddio'r wyddoniaeth orau sydd ar gael i lywio'r gwaith o ddatblygu polisi a pharatoi cyngor a hyfforddiant technegol i reolwyr tir, gan fonitro canlyniadau ein cynlluniau, a defnyddio'r adborth i wella'n barhaus.

Twristiaeth

Mae twristiaeth yn rhan bwysig o economi Cymru. Mae ein cefn gwlad a'n harfordir, ein mynyddoedd a'n dyfroedd mewndirol yn darparu amgylcheddau rhagorol ar gyfer gweithgareddau awyr agored. Y rhain, ynghyd â'n hamgylchedd hanesyddol, yw'r rheswm pam y mae ymwelwyr yn dewis treulio'u gwyliau yng Nghymru. Mae gennym dri Pharc Cenedlaethol, pob un â'i gymeriad unigryw, pum ardal o harddwch naturiol eithriadol ac, ers 2012, 870 milltir o Lwybr Arfordir Cymru, yr unig un o'i fath drwy'r byd. Mae hyn yn rhan unigryw o'n cynnig twristaidd cyffredinol, ond mae hefyd yn cyfrannu at yr amcanion ehangach gan gynnwys gwella llesiant ac iechyd y genedl. Un o'r blaenoriaethau allweddol yn *Partneriaeth ar gyfer Twf: strategaeth ar gyfer Twristiaeth* yw gwerthu rhagoriaeth trwy'r cynnig Cymreig – yr amgylchedd arfordirol a gwledig, diwylliant, gweithgareddau, digwyddiadau a chyrchfannau unigryw.

- Bydd yn hanfodol cydweithio'n glòs gyda phartneriaid yn y Parciau Cenedlaethol, awdurdodau lleol, yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol a Chyfoeth Naturiol Cymru er mwyn gwireddu'r buddion economaidd ac ehangach a gynigir gan amgylcheddau adeiledig a naturiol Cymru. Bydd rhaid inni roi ystyriaeth lawn i amgylchedd naturiol Cymru, sy'n ased enfawr, ac ystyried sut i ddefnyddio'i briodweddau fel bod twristiaeth yn tyfu'n gynaliadwy.

Ansawdd Amgylcheddol Lleol a Llesiant Cymunedol

Mae'r atebion i faterion iechyd a chymunedol sy'n seiliedig ar natur yn rhai ataliol, hirdymor a chosteffeithiol. Mae'r amgylchedd naturiol yn cynnig buddion iechyd corfforol a meddyliol, trwy greu mwy o gyfleoedd i gymryd rhan mewn gweithgarwch corfforol. Mae seilwaith gwyrdd fel mannau agored a pharciau yn bwysig o ran iechyd a llesiant. Mae chwarae a dysgu mewn mannau gwyrdd yn yr awyr agored yn bwysig i blant, ac i'w datblygiad, eu dealltwriaeth a'u gwerthfawrogiad o'r amgylchedd, a chefnogir hynny yn *Cymru: gwlad lle mae cyfle i chwarae*. Cysylltir gwell iechyd corfforol a meddyliol, â'r ardaloedd sydd â'r mwyaf o fannau hygyrch gwyrdd, a gall anghydraddoldebau iechyd fod yn sylweddol is mewn ardaloedd gwyrdd. Mae mannau gwyrdd a glas hygyrch a deniadol, fel parciau gwledig neu gymunedol, yn creu canolbwynt i weithgareddau a hunaniaeth gymunedol, a gallant ysgogi adfywiad a buddsoddiad. Fodd bynnag, mae nifer o'n cymunedau mwyaf difreintiedig yn byw'n agos at asedau naturiol ond maent wedi'u datgysylltu oddi wrthynt ac ychydig o fuddion y maent yn eu cynnig i'r cymunedau hynny. Mae ansawdd aer a gormod o sŵn yn creu llawer o salwch. Gall asedau a reolir gan y gymuned, megis coedlannau neu gynlluniau ynni cymunedol, ddarparu incwm, cyflogaeth a sgiliau lleol, ac ymgysylltu cymunedol trwy wirfoddoli. Yn ogystal â hyn, mewn ardaloedd trefol, gall seilwaith gwyrdd, sydd wedi'i gynllunio'n dda, gynnig rhyddhad rhag newidiadau eithafol yn yr hinsawdd drwy ddarparu lloches a chysgod yn ogystal â lle pwysig a chysylltedd ar gyfer bioamrywiaeth i addasu i'r newid hinsawdd. Wrth fwrw ymlaen â'n gwaith i wella ansawdd yr amgylchedd a'n cymunedau, byddwn yn:

- Sicrhau bod ein cymunedau'n elwa o amgylcheddau iach, trwy nodi cyfleoedd i gymryd camau sy'n gwella cyflyrau resbiradol, anweithgarwch ac iechyd meddwl. Mae'r rhain yn cynnwys cynyddu mannau gwyrdd a gorchudd coed a'i gwneud yn haws i'r cyhoedd ddefnyddio seilwaith gwyrdd. Byddwn yn helpu cymunedau i wella'r ardaloedd lle y maent yn byw ac yn gweithio, yn mynd i'r afael â materion amgylcheddol lleol, fel sbwriel a thipio anghyfreithlon, sy'n effeithio ar iechyd meddwl ac iechyd corfforol
- Gweithio gyda chymunedau i ddiogelu a gwella mannau gwyrdd sy'n dod â phobl ynghyd, gan helpu cymunedau i fod yn berchen ar asedau yn eu hardal
- Cynllunio'r gwaith o ddatblygu seilwaith gwyrdd yng nghanol ein cymunedau i bobl gael lle i ymgymryd â gweithgareddau hamdden, i

greu coridorau beicio a cherdded, i helpu cymunedau i wrthsefyll llifogydd a gwres ac i greu lleoedd pwysig ar gyfer natur.

- Hyrwyddo 'presgripsiynau gwyrdd'
- Cymryd camau ymarferol i wella ansawdd aer ar hyd a lled Cymru, nid dim ond yn y lleoedd mwyaf llygredig. Bydd angen gweithredu mewn gwahanol ffyrdd ynghylch llygredd o draffig a ffynonellau eraill, a gwella gallu'r amgylchedd naturiol i amsugno llygryddion trwy blannu coed ac ehangu seilwaith gwyrdd
- Cefnogi cynlluniau i ddefnyddio'r seilwaith ar gyfer cerbydau ag allyriadau isel
- Sicrhau bod buddsoddiad mewn prosiectau seilwaith yn arwain at gymaint o fuddion â phosibl, fel swyddi lleol, cyfleoedd hyfforddi ac yn hybu economi carbon isel, sy'n defnyddio adnoddau'n effeithlon.
- Adeiladu ar ein gwaith o greu cartrefi ac ysbytai cynhesach a mwy effeithlon, a hynny er mwyn gwella iechyd pobl ymhellach a lleihau'r gost o redeg ein cartrefi a'n gwasanaeth iechyd
- Gwella maeth ac ehangu'r farchnad yng Nghymru ar gyfer bwyd a diod o safon, trwy ddarparu bwyd iach, carbon is i ysgolion ac ysbytai.
- Annog cymunedau i fod yn berchen ar adnoddau naturiol a'u rheoli.
- Helpu i ddatblygu rhandiroedd a chynlluniau cymunedol i dyfu bwyd, yn enwedig mewn cymunedau difreintiedig.

Tirweddau a'n Hamgylchedd Hanesyddol

Mae tirweddau yn rhan hanfodol o ddulliau sy'n seiliedig ar leoedd ac ar natur Mae gan bob lle ei nodweddion, ei gyfleoedd a'i swyddogaethau unigryw, a bydd Cyfoeth Naturiol Cymru yn adlewyrchu'r rhain yn ei ddatganiadau ardal

- Mae'r broses adolygu Tirweddau'r Dyfodol Cymru wedi pennu egwyddorion eglur ar gyfer dyfodol ein tirweddau dynodedig. Mae hyn yn cynnwys cysoni eu pwrpas, eu prosesau a'r modd y'u llywodraethir â'r fframwaith a bennir yn Neddf yr Amgylchedd a Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, a darparu ar gyfer gosod gerbron gynigion newydd ar gyfer lleoedd a thirweddau gan gymunedau, gan fanteisio ar y profiad o fodolau rhyngwladol.
- Datblygir camau gweithredu manwl, gan gynnwys newidiadau deddfwriaethol posibl a nodwyd yn yr adroddiad, gan ddefnyddio'r un broses gydweithredol a thrwy ymgysylltu yn ehangach â'r cyhoedd ynghylch yr hyn sy'n gwneud lleoedd yn 'arbennig' ar gyfer pobl a chymunedau.

Bydd y mesurau a gyflwynwyd gan Ddeddf yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) 2016 yn gwella gwarchodaeth a rheolaeth gynaliadwy ar henebion cofrestredig ac adeiladau rhestredig yng Nghymru. Fe'u hategwyd gan bolisi cynllunio, cyngor a chanllawiau arferion gorau, i gynorthwyo rheoli newid yn ofalus yn yr amgylchedd hanesyddol ehangach, yn unol ag athroniaeth ac arferion cadwraeth cyfredol.

Pysgodfeydd a'r amgylchedd morol

Mae gan Gymru asedau arfordirol o safon fyd-eang, sy'n cyflenwi ystod o fuddion cymdeithasol, diwylliannol, economaidd ac amgylcheddol. Mae mesurau cadwraeth yn cyfrannu at wella ecosystemau morol, sy'n bwysig i'n cymunedau arfordirol, i lesiant pobl Cymru ac i'r rhai sy'n ymweld â'n harfordir.

Mae dyframaeth o safon uchel yn caniatáu i bobl fwynhau bwyd iach a gynhyrchir yn lleol. Mae llawer o bobl yn mwynhau pysgota â gwialen yng Nghymru, gan dargedu'r rhywogaethau eiconig megis eogiaid a sewin yn yr afonydd, neu ddraenogod môr a siarcod yn ein moroedd. Mae'n bwysig bod y poblogaethau pysgod hyn, a'u hamgylcheddau, yn iach ac yn cynnal pysgodfeydd cynhyrchiol a chyfleoedd hamdden.

Mae angen ymgais gydgysylltiedig gan y Llywodraeth, rheoleiddwyr, y diwydiant a'r trydydd sector i ddileu effeithiau y gellir eu hatal, er enghraifft, ffactorau sy'n effeithio ar amgylchedd afonydd ac ar stociau o bysgod. Caiff y blaenoriaethau gwaith ar gyfer buddiannau masnachol a hamdden mewn perthynas â physgodfeydd môr eu cytuno drwy Grŵp Cynghori ar Bysgodfeydd Môr Cymru.

Mae dyfroedd glannau Cymru yn adnodd cenedlaethol pwysig a bydd Cynllun Morol Cenedlaethol Cymru yn llywio'r modd y byddwn yn rhoi blaenoriaethau'r PAN ar waith yn y maes hwn, a hynny fel rhan o'r gwaith o reoli adnoddau naturiol morol Cymru. Mae'r gwaith hwn yn cael ei oruchwylio ar ran rhanddeiliaid gan Grŵp Cynghori ar Bysgodfeydd Môr Cymru.

Bydd y Polisi Adnoddau Naturiol, cynllunio defnydd tir a chynllunio morol yn ategu ei gilydd er mwyn rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy a hynny ar y tir a'r môr (gan gymhwyso egwyddorion Rheolaeth Integredig ar Barthau Arfordirol (ICZM)). Wrth fwrw ymlaen â'n gwaith yn y maes hwn, byddwn yn:

- cynyddu ein treuliant cartref ac yn ychwanegu gwerth trwy brosesu rhagor o bysgod môr Cymreig yn lleol, datblygu cadwyni cyflenwi a lleihau'r ddibyniaeth ar gynnyrch a fewnforir, sydd weithiau'n cael gwaeth effaith ar yr amgylchedd a'r hinsawdd.
- nodi a hybu cyfleoedd ymarferol i adfer ecosystemau, gwireddu buddion i'r cymunedau arfordirol ac y sicrhau llawer o fuddion trwy ddatblygu'r ardal forol yn gynaliadwy.
- sicrhau cydlynid ecolegol ar draws ein rhwydwaith o ardaloedd morol gwarchoddedig a gweithio i wella rheolaeth a chyflwr y rhwydwaith. Mae'r gwaith o wella cysylltedd a chydnerthedd yr ecosystemau morol yn sylfaen i gynaliadwyedd hirdymor ein moroedd.
- datblygu methodoleg i fonitro pa mor effeithiol yw'r cynllun a'i bolisiâu.
- datblygu polisi pysgodfeydd môr a system reoleiddio i sicrhau cyflenwadau dibynadwy sy'n cyfrannu at ecosystemau cynhyrchiol a dyfodol sicr i bysgodfeydd Cymru. At y diben hwn, bydd yn rhaid gweithio'n drawsffiniol gan gynnwys Gweriniaeth Iwerddon ac Ynys Manaw.

Trafnidiaeth

Trwy Strategaeth Genedlaethol a Chynllun Cyllido Trafnidiaeth Cymru rydym yn hyrwyddo rhwydwaith trafndiaeth ffyrdd mwy cynaliadwy a hefyd yn ceisio annog pobl a chlodwyr nwyddau i beidio â defnyddio'r ffyrdd. Bydd hyn yn lleihau allyriadau ac effeithiau trafndiaeth ar ein hamgylchedd a'n hiechyd. Rydym wedi ymrwmo i wella cyfleoedd teithio egniol ac i hyrwyddo trafndiaeth gyhoeddus. Wrth fwrw ymlaen â'r gwaith hwn byddwn yn

- creu rhwydwaith trafndiaeth sy'n gwella cydnerthedd ein hecosystemau a gwrthdroi dirywiad bioamrywiaeth
- enghreifftio arfer gorau ar gyfer coridorau gwyrdd ar ein cefnffyrdd fel rhan o rwydwaith ecolegol gydnerth sy'n helpu i hyrwyddo Cymru fel gwlad sy'n arwain y ffordd fel cyrchfan cynaliadwy o'r radd flaenaf i dwristiaid.
- gwella cysylltedd ac amrywiaeth ein hecosystemau gyda mentrau sy'n hyrwyddo coridorau gwyrdd, plannu coed yn strategol, rheoli llystyfiant yn briodol, a gwella ymhellach ansawdd amgylcheddol y rhwydweithiau trafndiaeth trefol a gwledig.
- cynnwys atebion seiliedig ar natur wrth gynllunio a datblygu seilwaith newydd cysylltiedig â thrafnidiaeth

Y system cynllunio defnydd tir

Mae Deddf Cynllunio (Cymru) 2015 yn gwella'r broses gynllunio er mwyn sicrhau y lleolir y datblygiad cywir yn y man cywir. Ailstrwythurir Polisi Cynllunio Cymru i adlewyrchu'r nodau a'r ffyrdd o weithio a bennir yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol. Yna, byddwn yn ystyried a oes angen diwygio'r gyfres ategol o Nodiadau Cyngor Technegol hefyd. Gyda'i gilydd, bydd Polisi Cynllunio Cymru a'r Fframwaith Datblygu Cenedlaethol yn gosod y cyd-destun cynllunio cenedlaethol a fydd yn helpu i gyflawni'r Polisi Adnoddau Naturiol yn genedlaethol. Yn lleol, bydd datganiadau ardal Cyfoeth Naturiol Cymru yn darparu cronfa o dystiolaeth leol hollbwysig ar gyfer rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy, a bydd rhaid i awdurdodau lleol roi sylw iddi yn eu Cynlluniau Datblygu Lleol.

Addysg

Gall Llywodraeth Cymru ddefnyddio trefniadau presennol y cwricwlwm i helpu i hyrwyddo ymwybyddiaeth o'r amgylchedd ac i annog pobl i wneud penderfyniadau mwy ystyriol yn y dyfodol. Mae'r trefniadau hynny'n cynnwys Addysg ar gyfer Datblygu Cynaliadwy a Dinasyddiaeth Fyd-eang. Nodwyd yn adroddiad yr Athro Graham Donaldson, *Dyfodol Llwyddiannus*, fod gan addysg bedwar diben – un o'r dibenion hynny yw helpu plant a phobl ifanc i fod yn ddinasyddion moesol a deallus sy'n dangos eu bod yn ymrwymedig i gynaliadwyedd y blaned. Y pedwar diben hyn sydd wrth wraidd y cwricwlwm newydd a nhw yw'r man cychwyn ar gyfer yr holl benderfyniadau ar ddatblygu'r cwricwlwm a'r trefniadau asesu newydd. Bydd swyddogion yn gweithio i sicrhau bod yr elfennau trawsbynciol yn y Polisi Adnoddau Naturiol

yn helpu i lywio'r gwaith o ddatblygu'r Meysydd Dysgu a Phrofiad newydd. Mae tystiolaeth a gyflwynwyd gan amrywiaeth eang o randdeiliaid ac arbenigwyr perthnasol yn cael ei hystyried ar hyn o bryd wrth i'r gwaith datblygu hwnnw fynd rhagddo. Mae'r dystiolaeth honno'n cynnwys cyfraniadau ar ddinasyddiaeth, ar reoli adnoddau naturiol, ac ar botensial yr amgylchedd naturiol i gefnogi llesiant corfforol a meddyliol plant a phobl ifanc. Bydd y gwaith hwn yn helpu i lywio manylion y Meysydd Dysgu a Phrofiad a'r cwricwlwm yn ei gyfarwydd.

Y Rhaglen Gyfalaf i Sicrhau Addysg ac Ysgolion ar gyfer yr 21ain Ganrif yw'r buddsoddiad mwyaf mewn seilwaith addysg ers y 1960au. O dan y cylch cyllido cyntaf, a fydd yn para pum mlynedd, gan ddod i ben yn 2019, bydd swm o dros £1.4 biliwn yn cael ei fuddsoddi er mwyn ailadeiladu ac adnewyddu dros 150 o ysgolion a cholegau ar draws Cymru. Rhaid i ysgolion a cholegau newydd sy'n cael eu hadeiladu o dan y Rhaglen Gyfalaf i Sicrhau Addysg ac Ysgolion ar gyfer yr 21ain Ganrif fod yn 'Rhagorol' o dan ddull asesu amgylcheddol BREEAM. Rhaid i 15% o'r deunyddiau fod yn rhai a ailgylchwyd (sy'n uwch na'r safon o 10% a bennir gan Lywodraeth Cymru) a rhaid i'r sgôr effeithlonrwydd ynni o dan y drefn Tystysgrifau Perfformiad Ynni (EPC) fod yn A. Drwy godi ysgolion newydd yn lle rhai hen sy'n aneffeithlon o ran ynni, a thrwy osod yr amodau hyn ar grantiau, mae'n hysgolion a'n colegau newydd yn cael llai o effaith ar yr amgylchedd.

Crynodeb a'r camau nesaf

Gyda'i gilydd, mae'r tair blaenoriaeth genedlaethol a nodir yma, yn ein Polisi Adnoddau Naturiol cyntaf, wedi'u cynllunio i fynd i'r afael â'r heriau sy'n ein hwynebu ac i fanteisio ar y cyfleoedd sylweddol y mae'n hadnoddau naturiol yn eu cynnig.

Bydd yn hanfodol cydweithio i ddod o hyd i atebion ymarferol sy'n datrys problemau lleol ac sy'n sicrhau'r buddion mwyaf. Mae'n hanfodol hefyd gweithio ar raddfa briodol ac yn lleoliadau priodol i fynd i'r afael â'r problemau ac i sicrhau bod pawb ar eu hennill. Byddwn yn gweithio gyda rhanddeiliaid i ddatblygu'r fframweithiau newydd y bydd eu hangen ar ôl i'r DU adael yr UE a hynny er mwyn rheoli ein tiroedd a'n moroedd, gan sicrhau bod ein polisïau a'n rhaglenni'n helpu i roi'r PAN ar waith ac yn ymateb i'r cyd-destun Cymreig unigryw. Wrth inni weithio i greu lle newydd i ni'n hunain yn y byd, byddwn hefyd yn adeiladu ar y gydnabyddiaeth ryngwladol sydd gennym, gan gynnig sicrwydd i fusnesau a buddsoddwyr a chryfhau'n henw da fel cenedl flaengar sydd â gwerthoedd a chyfeiriad cryf.

Hefyd, mae angen mabwysiadu prosesau monitro a gwerthuso clir. Byddwn yn datblygu fframwaith gwerthuso i ddangos i ba raddau y byddwn yn llwyddo i roi blaenoriaethau'r PAN ar waith, ac yn datblygu mesurau perfformiad sy'n gydnaws â'r rheini a geir yng nghyfres 'Dangosyddion Cenedlaethol Cymru.'

Atodiad A: Deddf yr Amgylchedd (Cymru) Rhan 1

Mae Deddf yr Amgylchedd (Cymru) yn nodi sut y dylid rheoli adnoddau naturiol Cymru yn gynaliadwy.

Adnoddau naturiol

Yn y Rhan hon, mae “adnoddau naturiol” yn cynnwys y canlynol (ond nid yw wedi ei gyfyngu iddynt)—

- (a) anifeiliaid, planhigion ac organeddau eraill;
- (b) yr aer, dŵr a phridd;
- (c) mwynau;
- (d) nodweddion a phrosesau daearegol;
- (e) nodweddion ffisiograffigol;
- (f) nodweddion a phrosesau hinsoddol.

Rheoli cynaliadwy ar adnoddau naturiol

(1) Yn y Rhan hon, ystyr “rheoli cynaliadwy ar adnoddau naturiol” yw—

- (a) defnyddio adnoddau naturiol mewn modd ac ar gyfradd sy'n hyrwyddo cyflawni'r amcan yn is-adran (2),
- (b) cymryd camau eraill sy'n hyrwyddo cyflawni'r amcan hwnnw, ac
- (c) peidio â chymryd camau sy'n llesteirio cyflawni'r amcan hwnnw.

(2) Yr amcan yw cynnal a gwella cydnerthedd ecosystemau a'r manteision a gynigir ganddynt ac, wrth wneud hynny—

- (a) diwallu anghenion y cenedlaethau presennol o bobl heb beryglu gallu cenedlaethau'r dyfodol i ddiwallu eu hanghenion hwythau, a
- (b) cyfrannu at gyrraedd y nodau llesiant yn adran 4 o Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

Egwyddorion rheoli cynaliadwy ar adnoddau naturiol

Yn y Rhan hon, “egwyddorion rheoli cynaliadwy ar adnoddau naturiol” yw—

- (a) rheoli mewn modd ymaddasol, trwy gynllunio, monitro, adolygu a, phan fo hynny'n briodol, newid gweithredoedd;
- (b) ystyried y raddfa ofodol briodol ar gyfer gweithredu;
- (c) hyrwyddo cydweithio a chydweithredu, a chyfranogi ynddynt;
- (d) gwneud trefniadau priodol i'r cyhoedd gymryd rhan yn y broses o wneud penderfyniadau;
- (e) ystyried yr holl dystiolaeth berthnasol a chasglu tystiolaeth mewn perthynas â materion y ceir ansicrwydd yn eu cylch;
- (f) ystyried manteision a gwerth cynhenid adnoddau naturiol ac ecosystemau;

- (g)ystyried effeithiau tymor byr, tymor canolig a hirdymor gweithredoedd;
- (h)cymryd camau i atal niwed arwyddocaol i ecosystemau;
- (i)ystyried cydnherthed ecosystemau ac yn benodol, yr agweddau a ganlyn—
- (i)amrywiaeth rhwng ecosystemau ac oddi fewn iddynt;
- (ii)y cysylltiadau rhwng ecosystemau ac oddi fewn iddynt;
- (iii)graddfa ecosystemau;
- (iv)cyflwr ecosystemau (gan gynnwys eu strwythur a'u gweithrediad);
- (v)gallu ecosystemau i addasu.

Dyletswydd i baratoi a chyhoeddi adroddiad ar gyflwr adnoddau naturiol

- (1)Rhaid i CNC baratoi a chyhoeddi adroddiadau yn unol â'r adran hon sy'n cynnwys ei asesiad o gyflwr adnoddau naturiol mewn perthynas â Chymru.
- (2)Rhaid i bob adroddiad nodi, ymysg pethau eraill—
- (a)asesiad CNC o'r graddau y mae rheoli cynaliadwy ar adnoddau naturiol yn cael ei gyflawni;
- (b)asesiad CNC o fioamrywiaeth (gan gynnwys yr organeddau byw a'r mathau o gynefinoedd a gynhwysir ar unrhyw restr a gyhoeddir o dan adran 7);
- (c)yr hyn y mae CNC yn ei ystyried yw'r prif dueddiadau a ffactorau sy'n effeithio, ac sy'n debygol o effeithio, ar gyflwr adnoddau naturiol;
- (d)unrhyw agweddau ar gyflwr adnoddau naturiol y mae CNC yn ystyried nad oes ganddo wybodaeth ddigonol amdanynt i wneud asesiad.
- (3)Rhaid i CNC gyhoeddi ei adroddiad cyntaf cyn diwedd y cyfnod o bedwar mis sy'n dechrau â'r diwrnod y mae'r adran hon yn dod i rym.
- (4)Wedi hynny, rhaid i CNC gyhoeddi adroddiad cyn diwedd y flwyddyn galendr sy'n dod cyn unrhyw flwyddyn y mae etholiad cyffredinol arferol i fod i gael ei gynnal.
- (5)Rhaid i CNC gyhoeddi drafft o bob adroddiad sy'n ofynnol gan is-adran (4) cyn diwedd y flwyddyn galendr sy'n dod cyn y flwyddyn y mae'n rhaid i'r adroddiad gael ei gyhoeddi.
- (6)Yn yr adran hon, ystyr "etholiad cyffredinol arferol" yw'r bleidlais a gynhelir mewn etholiad cyffredinol arferol o dan adran 3 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p. 32).

Dyletswydd i baratoi, cyhoeddi a gweithredu polisi adnoddau naturiol cenedlaethol

- (1)Rhaid i Weinidogion Cymru baratoi a chyhoeddi dogfen sy'n nodi eu polisiâu cyffredinol a phenodol ar gyfer cyfrannu at gyflawni rheoli cynaliadwy ar adnoddau naturiol mewn perthynas â Chymru (y "polisi adnoddau naturiol cenedlaethol").
- (2)Rhaid i'r polisi adnoddau naturiol cenedlaethol nodi'r hyn y mae Gweinidogion Cymru yn ei ystyried yw'r blaenoriaethau, y risgiau a'r cyfleoedd

allweddol ar gyfer rheoli cynaliadwy ar adnoddau naturiol mewn perthynas â Chymru, gan gynnwys yr hyn y maent yn ystyried y dylid ei wneud mewn perthynas â newid yn yr hinsawdd a bioamrywiaeth.

(3)Caiff Gweinidogion Cymru gynnwys unrhyw beth yn y polisi adnoddau naturiol cenedlaethol y maent yn ystyried ei fod yn berthnasol i gyflawni rheoli cynaliadwy ar adnoddau naturiol mewn perthynas â Chymru.

(4)Rhaid i Weinidogion Cymru—

(a)cymryd pob cam rhesymol er mwyn gweithredu'r polisi adnoddau naturiol cenedlaethol, a

(b)annog eraill i gymryd camau o'r fath.

(5)Rhaid i Weinidogion Cymru gyhoeddi'r polisi adnoddau naturiol cenedlaethol cyntaf cyn diwedd y 10 mis sy'n dechrau â'r diwrnod y mae'r adran hon yn dod i rym.

(6)Mewn perthynas â'r polisi adnoddau naturiol cenedlaethol—

(a)rhaid i Weinidogion Cymru ei adolygu ar ôl pob etholiad cyffredinol, a

(b)caiff Gweinidogion Cymru ei adolygu ar unrhyw adeg arall.

(7)Caiff Gweinidogion Cymru ddiwygio'r polisi adnoddau naturiol cenedlaethol ar unrhyw adeg a rhaid iddynt gyhoeddi'r polisi adnoddau naturiol cenedlaethol fel y'i diwygiwyd.

(8)Wrth arfer eu swyddogaethau o dan yr adran hon, rhaid i Weinidogion Cymru gymhwyso egwyddorion rheoli cynaliadwy ar adnoddau naturiol.

(9)Wrth baratoi neu ddiwygio'r polisi adnoddau naturiol cenedlaethol, rhaid i Weinidogion Cymru roi sylw i'r adroddiad diweddaraf o dan adran 8 ynghylch cyflwr adnoddau naturiol mewn perthynas â Chymru.

(10)Pan fydd Gweinidogion Cymru yn cyhoeddi'r polisi adnoddau naturiol cenedlaethol (neu bolisi diwygiedig), rhaid iddynt hefyd gyhoeddi adroddiad sy'n crynhoi—

(a)unrhyw ymgynghori a gynhaliwyd wrth baratoi'r polisi, a

(b)unrhyw sylwadau a gafwyd o ganlyniad i'r ymgynghori.

(11)Yn is-adran (6), ystyr "etholiad cyffredinol" yw pleidlais a gynhelir mewn etholiad cyffredinol arferol o dan adran 3 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p. 32) neu etholiad cyffredinol eithriadol o dan adran 5 o'r Ddeddf honno.

Datganiadau ardal

(1)Rhaid i CNC baratoi a chyhoeddi datganiadau ("datganiadau ardal") ar gyfer yr ardaloedd o Gymru y mae CNC yn ystyried eu bod yn briodol at ddiben hwyluso gweithrediad y polisi adnoddau naturiol cenedlaethol.

(2)Caiff CNC ddefnyddio'r datganiadau ardal at unrhyw ddiben arall wrth arfer ei swyddogaethau.

(3)Rhaid i bob datganiad ardal—

(a)egluro pam y paratowyd datganiad ar gyfer yr ardal, trwy gyfeirio at—

- (i) yr adnoddau naturiol yn yr ardal,
 - (ii) y manteision y mae'r adnoddau naturiol yn eu cynnig, a
 - (iii) y blaenoriaethau, y risgiau a'r cyfleoedd ar gyfer rheoli cynaliadwy ar adnoddau naturiol y mae angen ymdrin â hwy;
- (b) egluro sut y mae egwyddorion rheoli cynaliadwy ar adnoddau naturiol wedi eu cymhwyso wrth baratoi'r datganiad;
- (c) datgan sut y mae CNC yn bwriadu ymdrin â'r blaenoriaethau, y risgiau a'r cyfleoedd, a sut y mae'n bwriadu cymhwyso egwyddorion rheoli cynaliadwy ar adnoddau naturiol wrth wneud hynny;
- (d) pennu'r cyrff cyhoeddus y mae CNC yn ystyried y gallant gynorthwyo i ymdrin â'r blaenoriaethau, y risgiau a'r cyfleoedd.
- (4) Rhaid i CNC sicrhau bod pob rhan o Gymru yn cael ei chynnwys yn o leiaf un o'r ardaloedd y mae'n paratoi datganiad ardal ar eu cyfer.
- (5) Rhaid i CNC—
- (a) cymryd pob cam rhesymol er mwyn gweithredu datganiad ardal, a
 - (b) annog eraill i gymryd camau o'r fath.
- (6) Rhaid i CNC adolygu datganiadau ardal yn gyson a chaiff eu diwygio ar unrhyw adeg.
- (7) Cyn cyhoeddi datganiad ardal, rhaid i CNC ystyried a ddylid—
- (a) ymgorffori cynllun, strategaeth neu ddogfen debyg arall yn y datganiad ardal, neu
 - (b) ymgorffori'r datganiad ardal mewn cynllun, strategaeth neu ddogfen debyg arall.

Y Rhyngwyneb rhwng Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol a Deddf Cynllunio (Cymru)

Cafodd Deddf yr Amgylchedd (Cymru) Gydsyniad Brenhinol ym mis Mawrth 2016, wedi iddi gael ei datblygu'n dilyn ymgynghoriadau yn 2010 (*Cymru Fyw*) having been developed following consultations in 2010 (*A Living Wales*), 2012 (Papur Gwyrdd) a'r Papur Gwyn ar Fil yr Amgylchedd (Tuag at Reoli Adnoddau Naturiol Cymru yn Gynaliadwy) yn 2014. Fe'i datblygwyd ar y cyd â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol ac mae'n gydnaws â'r Ddeddf honno ac yn gysylltiedig â hi gan fod rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy'n sylfaenol i ddatblygu cynaliadwy. Mae cysylltiad agos hefyd rhwng darpariaethau'r Ddeddf honno a Deddf Cynllunio (Cymru), fel y gwelir yn y diagram a ganlyn.

Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015

Yn troi saith amcan llesiant yn ddeddf, ac yn ei gwneud yn ofynnol i gyrff cyhoeddus ddefnyddio'r egwyddor datblygu cynaliadwy mewn pum prif ffordd

Deddf Amgylchedd (Cymru) 2016

Creu proses statudol fodern i'n helpu i gynllunio a rheoli ein hadnoddau naturiol mewn ffordd gynaliadwy a chydgysylltiedig

Deddf Cynllunio (Cymru) 2015

Yn gwella'r broses gynllunio i sicrhau bod y datblygiad iawn yn digwydd yn y lle iawn

Atodiad B: Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth ar Weithredu seiliedig ar Natur dros yr Hinsawdd

Fel sefydliad sydd wedi llofnodi'r Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth ar Weithredu seiliedig ar Natur dros yr Hinsawdd, mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i:

- hyrwyddo buddsoddiadau i wneud ecosystemau'n fwy cydnerth, hynny fel rhan o'r ymateb i'r angen i liniaru ac addasu;
- edrych ar seilwaith naturiol neu "wyrdd" i gynnig atebion i leihau peryglon yr hinsawdd ac i ddarparu gwasanaethau ecosystem ehangach gan hefyd ddiogelu bioamrywiaeth ac iechyd yr ecosystem;
- defnyddio arfau ac asesiadau sy'n hyrwyddo dealltwriaeth well o werth ehangach bioamrywiaeth ac ecosystemau iach wrth fynd i'r afael â'r newid yn yr hinsawdd a darparu buddion niferus ac ehangach;
- datblygu arfau sy'n mesur manteision ffyrdd cydgysylltiedig o fynd i'r afael â'r newid yn yr hinsawdd (gan gynnwys gwasanaethau ecosystem, diogelu amrywiaeth biolegol, dal a storio carbon a cydfuddiannau ehangach sy'n helpu i'n gwneud yn fwy cydnerth);
- mwy o gydweithio a mesur technegol a gwyddonol mewn perthynas â rhoi'r Memorandwm ar waith
- meithrin cysylltiadau agosach rhwng rheoli'r ecosystem, addasu i'r newid yn yr hinsawdd a datblygu cynaliadwy.